

ECO'r Wyddfa

f Dilynwch ni ar facebook
www.ecorwyddfa.co.uk

Rhif: 479

Medi 2019

Pris:£1

Dewis, dewis: dwy wlad



Daeth torf o wyth mil i orymdeithio o amgylch Castell Caernarfon yn Awst a dangos eu cefnogaeth i'r mudiad Yes Cymru sy'n galw am dorri'n rhydd o gadwyni llywodraeth Llundain a mynnu annibyniaeth i'n gwlad. Cafwyd gorymdaith debyg yng Nghaerdydd yn flaenorol a bydd un arall ym Merthyr ar Fedi'r seithfed.

Mae'r map, a gyhoeddwyd tua pythefnos cyn yr orymdaith, yn dangos pa ganran o'r boblogaeth sy'n cefnogi Boris Johnson fel Prif Weinidog. Ond nid y canrannau isel ym mhobman sy'n tynnu sylw, ond y ffaith fod Cymru bellach yn cael ei chynnwys gyda'r Midlands yn Lloegr. Eisoes aeth de Penfro yn Little England ers talwm, ac y mae Abersock ac Upper Abersock

(Mynytho) yn brysur fynd yn West Cheshire. Ac er i Eisteddfod Genedlaethol hynod o lwyddiannus gael ei chynnal ar gyrion Llanrwst, roedd Cynghorydd o'r dref honno yn ddigon haerllug a ffeithiol anghywir i honni mai dim ond 2% o boblogaeth Cymru sy'n medru'r Gymraeg gan alw ar gostau cyfieithu i gael eu dileu.

Pan gyhoeddwyd yr Encyclopaedia Britannica gyntaf yr unig sylw a gafodd Cymru oedd y cymal "For Wales, see England". Ydi'r oes honno ar fin ail-gychwyn? Ydi'r oes honno erioed wedi peidio a bod yng ngolwg rhai pobl?

Oes pwrpas i'ch papur bro barhau (a phob papur bro arall o ran hynny) os dewiswch chi, ddarllenwyr, fod yn rhan o'r Western Midlands of England? Dim ond gofyn.

ISSN 2516-7235



9 772516 723001 >

Safle Treftadaeth y Byd yr ardaloedd llechi – cyfle i ddweud eich dweud



Sicrhau Statws Safle Treftadaeth y Byd UNSECO i ardaloedd llechi Gogledd Orllewin Cymru – dyna nod prosiect uchelgeisiol sy'n cael ei arwain gan Gyngor Gwynedd.

Fel rhan o'r gwaith manwl sydd ynghlwm â sicrhau'r statws UNESCO, mae Cyngor Gwynedd yn awyddus i glywed barn pobl yr ardal ar ddrafft o Gynllun sy'n amlinellu sut y byddai'n rheoli tirwedd llechi'r ardal.

Mae'r Cynllun Rheolaeth yn egluro sut y byddai'r Cyngor yn ymdopi â newid yn yr ardal yn dilyn y dynodiad ac yn defnyddio'r statws i warchod, hyrwyddo a gwella'r ardal er budd cymunedau lleol ac ymwelwyr.

Ym mis Hydref 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Prydain mai'r cais i gydnabod tirwedd llechi trawiadol yr ardal oedd yr enwebiad roedd yn ei ffafrio ar gyfer ei gyflwyno i UNESCO am ystyriaeth. Meddai'r Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd dros ddatblygu economaidd:

“Mae'r gwaith o sicrhau safle treftadaeth y byd yn gynllun uchelgeisiol iawn – byddai'n golygu fod ardaloedd llechi'r ardal yn derbyn yr un dynodiad â rhyfeddodau fel y Taj Mahal, Pyramidiau'r Aifft a Mur Mawr Tsieina.

“Ein bwriad gyda'r gwaith ydi dathlu ein hanes, ond hefyd i ddefnyddio'r cyfle i adfywio cymunedau trwy dreftadaeth a chreu cyfle newydd a chyffroes i fusnesau. Rydan ni am wneud hyn drwy gydweithio gyda chymunedau a busnesau, ac yn gobeithio fod y cais yn gyfle i atgyfnerthu neu ailgysylltu pobl gyda'u hetifeddiaeth leol a chreu swyddi ansawdd uchel yn lleol.” Mae cyhoeddi drafft o'r Cynllun Rheolaeth yn gam pwysig tuag at gyflwyno'r cais terfynol i UNESCO yn yr hydref ac mae disgwyl y bydd penderfyniad terfynol yn haf 2021.

Ychwanegodd y Cynghorydd Gareth Thomas: “Mae'r drafft o'r Cynllun Rheoli yn cael ei gyhoeddi yn dilyn blynyddoedd o waith caled sy'n cynnwys sawl sefydliad sydd wedi dod at ei gilydd i ddatblygu'r cais.

“Gallai sicrhau Statws Safle Treftadaeth y Byd ddod a miliynau o bunnau i'r economi leol, creu swyddi newydd a gallai'r statws ddrychafu Gwynedd a'i arwyddocâd hanesyddol yn llygaidd gweddill y byd.

“Er mai saith o safleoedd fyddai'n ffurfio'r statws Treftadaeth y Byd, y gobaith yw y byddai'n annog ymwelwyr o bell ac agos i grwydro o un lleoliad i llall – gan ledaenu'r budd economaidd i gymunedau ledled Gwynedd.

“Wrth gwrs, mae'n ddyletswydd arnom fel Cyngor i sicrhau ein bod yn rheoli a gwarchod y tirlun a gweithio gyda'r gymuned leol a busnesau er mwyn dod a'r budd gorau i'r ardal. Mae'r Cynllun Rheolaeth sydd wedi ei baratoi yn amlinellu sut ydym yn bwriadu gwneud hynny.

“Mae cyfle i drigolion Gwynedd ddarllen y ddogfen yn llawn a chynnig unrhyw sylwadau neu argymhellion. Yn ystod mis Medi, byddwn hefyd yn cynnal sesiynau galw-heibio ym mhob un o'r saith ardal - Dyffryn Ogwen; Dinorwig; Dyffryn Nantlle; Cwmystadllyn a Chwm Pennant; Ffestiniog; Bryneglwys ac Aberllefenni.”

Mae copi drafft o'r Cynllun Rheolaeth a holiadur ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd www.gwynedd.llyw.cymru/CynllunRheolaeth ac mae copïau papur ar gael i'w gweld ym mhob un o Lyfrgelloedd y sir a'r Siopau Gwynedd. Mae'r ymgynghoriad ar agor tan 30 Medi 2019.

COFIO'R CAU DINORWIG '69

Breuddwyd Gruffudd Llwyd

Chwe chan mlynedd yn ôl
pan oedd Dyffryn Peris yn iau
a'r coed yn dew hyd y llethrau,
aeth hwn i hela'i brae.

Cysgodd dan ddail yr haf
a gweld gwyrrth yn ei gwsg.

Gwelodd domenydd
fel eirth yn gaeafgysgu
a dynion ar gawr o graig yn siglo
fel pryfaid cop ar raffau sidan.

Gwelodd gnoCELL yn drilio a'i big haearn
a'i ben nôl a mlaen fel morthwyl.

Yn sydyn, seiren fel udo blaidd,
yn treiddio trwy'r tawelwch!
A'r dynion yn mochel
fel c'ningod i'w cwt.

Yna, dwndwr y glec
fel dau fwch gafr
yn pwnio'u pennau, a'u cyrn yn clecian,
A'r cerrig yn fflïo
fel carnau ceirw yn ffoi.

Gwelodd wedyn lwynogod
yn rhwygo plygiau yn glytiau,
a gwiwerod yn holhti cerrig to fel cnau.

Deffrodd,
a llechen ar lawr
yn brathu ei foch o hyd.

*Disgyblion Bhwyddyn 6
Ysgol Dolbadarn a Ifor ap Glyn
Mehefin 2019*

Parti'r Ponciau

Mae'r ponciau'n cael parti,
ond welwch chi mo'r merched
sy wedi hel i lofft y chwarel
i ddathlu priodas Matilda,
gan chwarae cuddio
mewn ffrogiau clogwyni crand:
Alice ac Enid
Harriet a Veronica...

Welwch chi mo'r hen ffermydd chwaith –
Muriau, a Hafod Owen
yn galw ar Bant Ceubren
a'u lleisiau'n eco'n y gwynt.
Yn sgwrsio am y cnydau cerrig
wnaeth lyncu'r caeau
o fis i fis.

Mae Llangristiolus ac Aberdaron
yn hiraethu'n y barics
am awyr iach eu milltir sgwar
ac am eu teuluoedd clen,
cyn closio at y ponciau eraill
i rannu creision llechi
a jeli fel creigiau'n crynu;
a chacen grawiau
hefo eisin powdwr du.

Welwch chi mo'r bagiau parti,
y poteli diod Padarn,
y rholar inclein fel io-io
a'r creigiau melys i'w sugno.

Ac welwch chi mo enwau'r ponciau
fel ysbrydion di-ri
yn crwydro'r chwarel heddiw,
yn dal i gadw'r cof am ddoe.

*Disgyblion Bhwyddyn 4
Ysgol Llanrug a Ifor ap Glyn
Mehefin 2019*

Ponciau'r Byd

Mae'r byd i gyd
rhwng Llanbabs a Llanbêr,

ac enwau'r gwledydd
yn gweu'n hudolus
drwy'r chwarel o hyd:

fel Yr Aifft, a'i domenni'n
byramidiau ymhob man;
ac Awstralia: y bonc
oedd fel ochr bella'r byd.

California wedyn,
lle bu dynion
yn troi cerrig yn aur;

Abyssinia, yn swyno
peipen compressed air
fel neidr
i fyny drwy'r chwarel;

a New York,
lle roedd wyneb y bonc
fel y tyrrau tal
sy'n crafu'r cymylau...

Mae'r byd i gyd
rhwng Llanbabs a Llanbêr!

*Disgyblion Bhwyddyn 4 a 5
Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen a Ifor ap Glyn
Mehefin 2019*

Cofio'r Cau

gan Ifor ap Glyn
...Braich Ucha, Garrett Ganol, Ponc Robin
Rabar;

Prinhau mae'r rhai sy'n deall iaith y graig
sy'n deall her y 'traed' a'r 'crychod' a'r 'brig
trwm';
sy'n rhegi'r cerrig budron,
ac yn canmol rhai fel sidan.
...Awstralia, Pont Mosys, Toffat;

A chydig heddiw fedr gofio emynau'r gwaith,
fu'n gryndod bas ar flondin neu inclên,
cyn brasholhti'n bedwar llais,
yn gymanfa gyllyll naddu....
...Ponc Swallow, California, Sinc Wembley;

Mud yw'r mynydd mwyach
ond mae camp ein cyndadau
yn llafar o hyd ar y llethrau hyn.
...Hafod Owen, Matilda, Y Bonc Fawr;

Nid rhyw 'gewri stori fusutors'
wnaeth gerfio'r grisiau anferth hyn,
ond gwerin dwylo garw
a'u ffydd yn symud mynyddoedd,
wrth gonsurio cerrig yn fara,
fesul ponc a sinc, fesul crawan a chlwt.
...Matilda, Aberdaron, Ponc Teiliwr;

Ac os dewch yn nes,
a meinio'ch clustiau
yn erbyn y gwynt,
yn erbyn rhyfyg y dringwyr rhaffau glas,
bydd y ponciau'n sibrdw eu henwau o hyd...

...Twll Dwndwr, Bonc Wyllt, New York;
Hanner canrif wedi'r cau
mae gwaddol eu gorffennol
yn dal i ddwyn hen fyd yn ei ôl;
ond gwae ni'r plant a'r wyrion
os caniatawn yn awr
i bonciau ein hanes
droi'n geudodau estron
ar ystlys Elidir Fawr...
...Sinc Galed, Ponc Enid, Abyssinia.



Parti'r Ponciau

Agorwyd ponc ar ddiwrnod priodas T Assheton Smith (ieu), Hydref 17, 1827, ac fe'i henwyd ar ôl ei wraig newydd, Matilda. Mae cerdd Ysgol Llanrug yn dychmygu'r dathliadau rhwng y ponciau ar y diwrnod hwn. Mae hefyd yn adrodd hanes tu ôl i enwau rhai o'r ponciau eraill. Merched o deulu'r Faenol oedd Harriet, Veronica, Enid ac Alice. Hen ffermydd a lyncwyd gan y chwarel oedd Muriau, Hafod Owen a Pant Ceubren, ac fe enwyd ponciau Llangristiolus ac Aberdaron am bentrefi'r dynion oedd yn gweithio arnynt.



Cefndir y Cerddi Breuddwyd Gruffudd Llwyd

Un o Feirdd yr Uchelwyr yn y 14eg ganrif oedd Gruffudd Llwyd – beirdd proffesiynol oedd yn canu mawl i uchelwyr y cyfnod. Er ei fod o Bowys, bu'n athro barddol ar Rhys Goch Eryri, ac yn ôl y sôn roedd yn hoff iawn o hela yn yr ardal hon. Dyma gerdd gan ddisgyblion Ysgol Dolbadarn sy'n dychmygu Gruffudd yn mynd allan i hela a'n profi breuddwyd go ryfedd...

Ponciau'r Byd

Mae pob math o enwau gwledydd a llefydd pell ar bonciau Dinorwig, a weithiau mae'n anodd gweld unrhyw gysylltiad rhwng y lleoliadau hyn a'r pentyrrau llechi anferth. Diolch felly i Ysgol Gwaun Gynfi am edrych yn agosach ar y tebygrwydd, ac am ein hatgoffa mai Llanbabo oedd un o hen enwau eu pentref, Deiniolen.

**COFIO'R CAU
DINORWIG '69**



Mae arddangosfa newydd yn Amgueddfa Lechi Cymru yn coffáu 50 mlynedd ers cau Chwarel Dinorwig ym 1969. Mae Dinorwig '69 - Cofio'r Cau, ar agor ers 15 Gorffennaf, yn edrych ar rai o'r rhesymau dros y cau yn Haf 1969 a'r effaith a gafodd hyn ar bentref Llanberis a'r gymdogaeth – a hyn oll wythnosau ar ol Arwisgiad y Tywysog yng Nghaernarfon ar gylch o lechen Dinorwig.

Ar ôl y cau - collodd 350 o ddynion eu gwaith ac yn sgil hyn newidiodd cymuned chwarelyddol a ffordd o fyw a oedd wedi bodoli ers y 1780au am byth.

“Byddwn yn ceisio rhoi hanes y cau yn ei gyd-destun,” eglurodd Dr Dafydd Roberts, ceidwad yr amgueddfa.

“Nid dathlu ond yn hytrach cofnodi y bennod bwysig hon mewn hanes. Ganrif ynghynt, byddai cau'r chwarel wedi bod yn annirnadwy - roedd Chwarel Dinorwig yn un o'r chwareli llechi mwyaf yn y byd – a gyda Chwarel y Penrhyn ym Methesda, gallai gynhyrchu mwy o lechi toi mewn blwyddyn na'r holl chwareli llechi eraill yn y byd gyda'i gilydd. Cafodd y tawelwch dieithr a ddaeth i Ddinorwig ym mis Awst 1969 effaith enfawr a hirbarhaol ar yr ardal.”

Mae'r arddangosfa'n cynnwys mur o 50 o ffotograffau sy'n cynrychioli chwarel Dinorwig dros y blynyddoedd a sydd wedi eu dewis gan gyn chwarelwyr. Hefyd mae gwaith celf a barddoniaeth gan blant ysgol ardaloedd y chwareli, wedi ei gwblhau o dan ofal yr artist Mari Gwent a'r bardd Cenedlaethol Ifor ap Glyn. Hefyd bydd cyfres o straeon digidol o archif yr amgueddfa a wnaed 10 mlynedd yn ôl gyda phobol lleol yn cofnodi eu hatgofion am y Chwarel.

Yn ogystal a hyn bydd dwy ffilm i'w gweld ar y safle drwy gydol yr haf – sef 'End of the Line', ffilm a wnaed gan y BBC ym 1969 adeg yr arwerthiant, sy'n dangos y gwrthrychau'n cael eu gwerthu ac hefyd amrywiaeth o storïau digidol gan bobl leol am eu hatgofion o'r cyfnod, a gynhyrchwyd gyda chymorth disgyblion o Ysgol Brynrefail, a Ffarwel Roc, ffilm ddogfen o 1969 yn dilyn hanes Chwarelwyr Dinorwig.

“Roedd nifer o'n gweithgareddau yn canolbwyntio ar yr wythnos olaf ym mis Awst, Derbyniodd y dynion lythyr gan Gwmni Chwarel Dinorwig yn eu hysbysu y byddai'r chwarel yn cau ar yr 22ain o Awst, ac roedd yn ymddangos yn briodol i ni felly ddefnyddio'r dyddiad hwn yn ganolbwynt ar gyfer ein digwyddiadau.”

Dechreuwyd cloddio am lechi ar raddfa helaeth yn Chwarel Dinorwig yn y 1780au, ac erbyn y 1890au roedd yn cyflogi dros 3,000 o ddynion a bechgyn ifanc.

Ond roeddy diwydiant llechi, fel nifer o ddiwydiannau mawr eraill, wedi wynebu anawsterau. Erbyn y 1960au, roedd y diwydiant yn gyffredinol yn wynebu dyfodol mwy ansicr fyth. Nid oedd pethau wedi bod yn mynd yn dda ers nifer o flynyddoedd, ac ymddengys fod sawl rheswm dros gau Chwarel Dinorwig ym 1969. Roedd llai o alw am lechi yn y DU yn ystod yr 20fed ganrif. Roedd llechi o Gymru yn ddrud o'u cymharu â theils a llechi toi o dramor, ac roedd perchenogion Chwarel Dinorwig a Chwarel y Penrhyn yn cystadlu â'i gilydd am gyfran o farchnad gymharol fychan.

“Mae'n ymddangos hefyd nad oedd Chwarel Dinorwig wedi cael ei datblygu'n effeithiol,” eglurodd Dafydd Roberts. “Roeddynt wedi cloddi'r llechfaen mwyaf hygyrch erbyn y 1960au, ac roedd angen buddsoddi er mwyn datblygu ymhellach. Nid oedd gan y perchenogion yr arian i wneud hyn yn iawn. Un o'r camgymeriadau oedd buddsoddi'n helaeth yn Chwarel Marchlyn, ond nid oedd y rhan hon o'r mynydd yn gwneud unrhyw arian. Nid oedd unrhyw lechfaen gwerth ei weithio yno. Erbyn diwedd y 1960au, roedd y chwarel yn dibynnu ar archebion o Ffrainc i oroesi. Ym mis Gorffennaf 1969, daeth yr archebion hyn i ben. Dyma'r hoelen olaf yn yr arch. Pan gaeodd Chwarel Dinorwig - a oedd yn un o nifer helaeth o chwareli llechi i gau yn y 1960au - roedd hyn yn llawer mwy nag ergyd economaidd. Roedd ffordd o fyw yn wynebu dyfodol ansicr.”

Bydd yr arddangosfa ar agor hyd at 31 Rhagfyr 2019.

Am fwy o fanylion cysylltwch a'r amgueddfa ar 02920 573707.

ARVONIA

- ✓Gwyliau cerbyd moethus Prydeinig a Chyfandirol.
- ✓Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- ✓Adran teithiau grŵp.
- ✓Tocynnau rhodd.
- ✓I weld ein holl deithiau a chynigion arbennig ewch i'n gwefan.

01286-675175 www.arvoniamotorhomes.co.uk

BETHEL

Eisteddfota. Fe godwyd ein calonnau gyda safon aruchel y cystadlu, y darlithoedd a'r arddangosfeydd yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Onid oedd y papurau yn gwneud mwy o'r 'mwd' na'r eisteddfodwyr pybyr. Yn bersonol cefais sawl gwefr o weld ieuencid a welaf ar y gylchdaith eisteddfodol lleol bellach yn cymryd eu lle yn haeddiannol ar y llwyfan mawr. Apeliad felly ar ein hieuencid lleol i fireinio crefft a chefnogi eisteddfodau lleol eleni ym Methel, Deiniolen, Penisarwaun a Llanrug.

HAF KELLY



Hollol briodol yw rhoi sylw dyledus i Kelly O'Donnel, 14 Cremlyn y mis hwn. Penderfynodd Kelly gystadlu yn Râs yr Wyddfa eleni. Y bwriad oedd cynnal y traddodiad â sefydlwyd gan ei diweddar ŵr Rory. Bu yn ymarfer yn ddygn, ac mae yn gwerthfawrogi cefnogaeth llawer yn enwedig Rhian Whiteside Thomas o Lanrug am ei symbylu pan oedd ambell i wal yn ymddangos. Canlyniad yr ymdrech oedd iddi gwblhau y râs mewn amser rhyfeddol o 2awr 15 munud, a hyn ar ei hymdrech gyntaf. Ond dim ond hanner y stori yw hyn. Roedd Kelly wedi cael cannoedd o bobl yn llythrennol i'w noddi, gyda'r arian yn mynd er cof am Rory i fudiad Ymchwil Cancr Tenovus.. Yn anhygoel cyfranwyd £6,135 i'r achos teilwng hwn. Yn naturiol mae Kelly a'r teulu yn mynnu diolch o waelod calon.

Ond, dim gorffwys. Fel yn Eisteddfod yr Urdd, roedd dau barti dawns i'w hyfforddi ar gyfer Llanrwst. Ni chyhaeddodd y parti iau – Y Digrifwyr Doniol – y llwyfan. Nid felly yr oed hŷn, a daeth grŵp Mediwsa yn drydydd. Gyda llaw gyfryngis, fel y dywed y ffurflen swyddogol, o Bethel y daw'r grŵp ac nid o Gaernarfon.



PRIODAS Yn ystod y gwyliau priodwyd Twm a Lisa (Griffiths erbyn hyn) yng Nghapel Golan, Garndolbenmaen. Mae'r ddau wedi ymgartrefu yn y Groeslon, Bethel. Mae Twm yn gweithio I Gymdeithas Gymunedol Gwynedd a Lisa yn athrawes yn Ysgol Waunfawr. Dymuniadau gorau i chwi.

BYSUS – NEU DDIM BYSUS! Am gyfnod byr iawn y cawsom ddefnydd o'r gwasanaeth bws cwmni Gwynfor rhwng Bethel a Bangor. Mae'n ymddangos mai diffyg defnydd o'r gwasanaeth oedd y rheswm. Yn amlwg, nid oes unrhyw fusnes am redeg gwasanaeth ar gollod.

Y brif broblem yw amseru y gwasanaeth. Ers talwm roedd angen bws i fynd i siopa, mynd i'r gwaith neu'r ysbyty, sinema... Nid felly heddiw. Rydym i gyd yn euog o or-ddibyniaeth ar y modur. Gwael ydym hefyd i rannu modur ar gyfer ambell un o'r teithiau. Canlyniad hyn i gyd yw'r gorbarcio truenus yn ein trefi. Beth yw'r ateb? Tybed a ellir arbrofi gyda'r hen syniad ble bu ambell un o fysiau Caernarfon i Landudno, ac ar y ffordd yn ôl yn dargyfeirio drwy Bethel gan fyned ymlaen drwy Nant y Garth i Ysbyty Gwynedd ac ymlaen a'u taith.

OEDFAON MEDI

CYSEGR (10a.m) : 1/9 Parch. Glenys Jones 8/9 Gweinidog 15/9 Mrs. Nerys Griffiths 22/9 Gweinidog 29/9 Delyth Oswy-Shaw

SARON (2p.m) : 1/9 T. Alun Williams 8/9 Huw Tegid Roberts 15/9 Rhian Evans-Hill 22/9 Gwyndaf Jones 29/9 Parch. Richard Gillion (C)

BETHEL (A) (10a.m) : 8/9 Parch. R.E.Hughes 15/9 Parch. Cath Williams 29/9 Owain Davies (11am)

YSGOL SUL Y CYSEGR

Daeth tymor yr Ysgol Sul i ben gyda'u trip blyneddol. Y gyrchfan eleni oedd Canolfan Hamdden Pwllheli ac yna ymweld a Pharc Adloniant Glasfryn am ginio a Bowllo Deg. Diolch i Anti Myfanwy am y trefniadau ac roedd pawb wedi mwynhau eu hunain. Diwedd y tymor byddwn yn ffarwelio ac un o'n hathrawesau teyrngar yma yn y Cysegr sef Eleri Moss. Rydym yn diolch iddi am ei chyfraniad gwerthfawr, ac yn dymuno yn dda i dri o'n haelodau Elan, Cadi ac Ifan fydd yn dechrau yn Ysgol Brynrefail mis Medi.

Bydd yr Ysgol Sul yn ail-ddechrau fore Sul, Medi 15 am 10 o'r gloch. Mae'n siwr bod llawer ohonoch yn dilyn gwefan Bethel Ddoe a Heddiw – caffaeliad i'r ardal yn sicr. Mor aml y gwelir lluniau o grwpiau Ysgolion Sul y gwahanol gapeli, ac nid o flynyddoedd maith yn ôl. Sut bu y fath ddirywiad mewn cyn-lleied o amser? Ai dyma'r amser i ni fel cymuned

ad-ennill yn ôl werthoedd a roddwyd i nifer ohonom. Rieni, beth am ddanfôn y plant arbennig sydd gennym yma yn y pentref i'r Ysgol Sul a thanio brwdfrydedd unwaith yn rhagor. Bydd croeso yn eu haros. Bore Sul, Medi 15, ail sefydlu Ysgol Sul Gymunedol Gyd-enwadol Bethel – beth amdani?

DIOLCH Dymuna Rhys ac Emily (Erddig gynt) ddiolch i gyfeillion a theulu am eu cyfarchion a rhoddion ar enedigaeth eu merch fach Popi Wyn.

YR YSGOL Erbyn hyn mae canlyniadau yr arolwg addysgiadol yn hysbys. Dyfarnwyd y penderfyniad o RAGOROL ym mhob un o'r meysydd dan archwiliad o arweiniad, cyd-weithio, safonau gwaith, ymateb plant a.y.y.b. Tystia hyn i weledigaeth unedig y Prifathro, Staff a Llywodraethwyr yr ysgol a hefyd ymateb arbennig y disgyblion. Yn aml yn yr adroddiad terfynol cyfeirwyd at naturioldeb, Cymreictod , cwrteisi ac ymateb synhwyrol y disgyblion. Fel pentref gallwn ymfalchio yn y fath ddyfyniadau. Diolch hefyd i'r rhieni am eu cefnogaeth i'r ysgol a'u staff mewn sawl ffordd, a hynny mewn adeg ble mae pob ysgol angen cefnogaeth.

I Staff Ysgol Bethel

Un tîm ydych pob tymor, – hadu maeth

hyd y maes â'ch cyngor.

I'r egin, rhoi'r –ôl rôl rhagor, rhoi y stamp sy'n llenwi'r stôr.

CYDYMDEIMLAD Yn ddiweddar collwyd un o hen hogia Bethel sef Fred Williams, Hafan neu Fred Erw Bian i'r mwyafrif. Dyn hawddgar iawn oedd Fred, parod ei sgwrs a storiwr aml am yr hen Fethel. Fel gyrfa bu Fred yn flaenllaw iawn gyda chwmni bragdy Wrecsam Lager. Bu yn uwch-beirannydd yn y gwaith ac yn ddiweddarach yn rhan o'r tim uwch-reoli. Cydymdeimlwn a'r teulu.

Y CRIW ELUSENNOL Dyma griw dros y pum mlynedd diwethaf wnaeth gyfraniad gwerthfawr iawn o dan ddwy ymbarel fel petai. Yr

Parhad BETHEL

achos cyntaf oedd fel criw y Tê Mefus. Dros y blynyddoedd codwyd tua £3750, a rannwyd i wahanol elusennau lleol a chenedlaethol. Yn yr un olaf, fis Gorffennaf gwnaed elw o £535 a rhoddwyd £335 i Ymchwil Cancr y Fron a £200 i ymchwil Cancr y Prostrad.

Yr ymbarel arall oedd y sawl Tê Pnawn tuag at wasanaeth Mcmillan. Bydd y tê pnawn nesaf ar bnawn Gwener, Medi 27 yn y Neuadd rhwng 2-4pm. Dros y blynyddoedd codwyd bron iawn i £4000 at achos Mcmillan. Bydd elw y tê nesaf yn cael ei rannu rhwng Mcmillan a mudiad Cystic Fibrosis.

Yn anffodus, fel y Tê Mefus, hwn fydd y tê Pnawn olaf hefyd. Mae'r 'giang' a wnaeth waith clodwiw gyda'u trefniadau yn 'ymddeol'. Ni fynnant eu henwi oherwydd cyd-weithio parod ac effeithiol oedd y ddwy ymdrech arbennig yma. Rydym ni y cefnogwyr – a bwytwyr – selog yn gwybod pwy ydynt ac yn diolch o waelod calon am eu hymdrechion parod. Y maent hwy hefyd am ddiolch i'r cefnogwyr a chyfranwyr dros y cyfnod. Tybed, a oes cyfle i fudiad, cymdeithas neu grwp o unigolion lleol ymuno a chario ymlaen y gwaith clodwiw?

Fe fydd y caffi Pop-up yn mynd yn ei flaen, yn agor ei ddrysau am 10a.m yn y Neuadd ar

ddydd Mawrth olaf y mis.

CLWB BRO BETHEL

Erbyn i chwi dderbyn y rhifyn hwn bydd cyfarfod cyntaf y tymor newydd wedi ei gynnal. Mae croeso i chwi ymuno a ni ar y dydd Mawrth cyntaf o bob mis yn Festri Cysegr am 1.30pm. Sylwch yr amseriad newydd, fydd yn rhoi cyfle i nain neu daid sy'n gorfod cyfarfod plant o'r ysgol i fod yn bresennol am y cyfarfod cyfan. Yr un yw'r tâl-aelodaeth sef £5, ac mae'r pwyllgor eisioes wedi cynllunio rhaglen amrywiol o siaradwyr, gweithgareddau, tripiâu a hefyd wrth gwrs y Cinio Nadolig a'r Wibdaith flynyddol. Fe fydd y cardiau aelodaeth/ rhaglen wedi eu dosbarthu. Bydd cyfarfod mis Hydref ar Hydref 1af. Edrychwn ymlaen am dymor hwyliog arall.

ENNILL YN LLANRWST



Na, nid ar y llwyfan ond ar y Maes yr enillodd Annwylid Jones, Y Gaer Wen, Cae Metta ei gwobr. Ie, cipiodd un o wobrau steil gwisg yr eisteddfod sef Sash Huw Fash o raglen Heno.


TORRI – I GYNNAL



Ar Awst 25 roedd Elen Williams, disgybl yn Ysgol Bethel yn 10 oed. Ers dwy flynnedd mea Elen wedi dilyn y ffasiwn bellach o feithrin a thrin gwallt hir dros ei hysgwyddau. Ond, ar ei phenblwydd daeth newid. Torrwyd 14 modfedd oddi ar hyd ei gwallt. Y gobaith oedd denu nawdd ariannol gan gyfoedion ac wrth ddefnyddio y wefan 'justgiving'. Yr oedd yr elw I fynd at fudiad Cystic Fibrosis. Y sbardun oedd fod ffrind gorau Elen, sef Anna, yn dioddef o'r cyflwr. Targed blaenorol Elen a'i chefnogwyr oedd codi £200, ond hyd yn hyn mae'r cyfanswm wedi cyrraedd £1400. Yn benodol, fe drosglwyddir yr arian i adran 'little princess trust' yr elusen sy'n paratoi wigiau i rai sy'n dioddef o'r cyflwr. Diolch i ti Elen a'th gefnogwyr, am gynnal ethos ryfeddol y pentref a'r ysgol o gyfrannu dros eraill.

TARDDIAD ENW 'CWMY GLO'

Tybir bod tarddiad yr enw 'Cwm y Glo' yn dod o wersyll sefydlwyd rhywle yn y cyffiniau gan Wyddelod ddaeth yma ganrifoedd yn ôl (yn ôl un ffynhonnell). Yn ddiweddar, daeth dau ddisgybl o Ysgol Brynrefail am brofiad gwaith gyda Cynllun Cerdded a Darganfod Menter Fachwen. Buont wrthi gyda Gareth Roberts a Martin Davies yn gwenud archwiliad mewn 'lleoliad' uwchben y pentref i geisio darganfod y gwerysll. Roedd y canlyniadau yn ddiddorol dros ben ac yn awgrymu bod twmpathau llosgi siarcol wedi bod yno. Bwriad Menter Fachwen yw creu arddangosfa o'r gwaith a'r dargynfyddiadau maes o law ond mae rhagor o waith i'w wneud ar y safle cyn hynny.



E. W. Pritchard

Trefnwyr Angladdau

CENTRAL GARAGE

LLANBERIS

FFON- (01286) 870202

Cynbig
GOFAL PLANT CYMRU
The **CHILDCARE** Offer for WALES

Addysg gynnar a gofal • Early education and care



30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant wedi'u hariannu gan y Llywodraeth i neni cyn 5 ys sy'n gweithio ac sydd a phlant tair a phedair oed, a hynny am hyd at 48 wythnos y flwyddyn.

30 hours a week of Government funded early education and childcare for eligible working parents of three and four year olds for up to 48 weeks of the year.

Ar gael yn • Available in

Gwynedd a Môn

01248 352436

gofalplant30awr@gwynedd.llyw.cymru

GOA: 6. Medi 2016. Yn parhau'n ddwyieithus. © 2016. Yn parhau'n ddwyieithus.



LLANBERIS

Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Ffôn: 870740



Pentref Taclus 'Dwi'n siŵr fy mod yn cyflwyno diolch yr oll o bentrefwyr Llanberis wrth ymestyn diolch i'r criw bychan o wirfoddolwyr sy'n ymdrechu i gadw ein pentref yn daclus a chlir o ysbwriel. Diolch hefyd am y gwaith sy'n mynd tuag at gynnal a chadw'r holl flodau bendigedig sydd i'w gweld o amgylch y pentref!

Diolchiadau Hoffai Doreen Roberts, 50 Maes Padarn, ddiolch o galon i bawb am yr holl ddymuniadau ar achlysur ei Phen-blwydd Arbennig ar Orffennaf 29ain.

Diolch am yr holl gardiau, anrhegion, blodau, ymweliadau a galwadau ffôn. Hefyd, diolch i Neil a Staff y Gwynedd am y Parti a ddarparwyd i ni ar yr 28ain o Orffennaf. Cafwyd prynhawn difyr ymysg teulu, ffrindiau a chymdogion. Diolch yn fawr.

Ymddeoliad Derbyniwyd y canlynol ynglŷn â Medwyn Lloyd Roberts, Coed Y Glyn (Merddyn Coch, Stryd Ceunant gynt), yn ystod yr haf.

Bu i Medwyn Lloyd Roberts o bentref Llanberis, ymddeol mis Mehefin ar ôl bron i 42 flwyddyn o weithio mewn llywodraeth leol.

Dechreuodd Medwyn ei yrfa yn 1977 gyda Chyngor Bwrdeistrefol Arfon yn yr Adran Dechnegol ac fe ymunodd â Chyngor Gwynedd yn dilyn adrefnu llywodraeth leol 1996. Bu'n gweithio o fewn yr Uned Bwrdeistrefol ers 1996 sydd â'i swyddfa ar Stad Ddiwydiannol Cibyn. Ei ddyletswyddau oedd ymwneud ag adnoddau cyhoeddus ardal Arfon - sef toiledau, tiroedd agored, mynwentydd a chaeau chwarae. Fe ddaeth yn arbenigwr ar gyfarpar chwarae i blant ac yn ddefnyddiwr medrus o gyfrifiadur i ddylunio caeau chwarae newydd. Mae nifer fawr o gaeau chwarae a thiroedd agored Cyngor Gwynedd, rhai ohonynt yn Nyffryn Peris, wedi deillio o'i waith cynllunio ers 1977. Bydd ôl gwaith Medwyn i'w weld yn yr ardal am flynyddoedd i ddod.

Mae ei gydweithwyr yn Cibyn yn dymuno'r gorau iddo yn ei ymddeoliad a gobeithio y gwneith fwynhau chwarae'r holl Golff!

Gwasanaethau Capel Coch

Medi

1 am 10yb: Mr John Roberts

8 am 10yb a 5yh: Y Gweinidog

15 am 10yb: Mr Huw Tegid Roberts

22 am 10.30: Oedfa Deulu

29 am 10yb: Parch Dafydd Lloyd Hughes

Hydref

6 am 10yb: Parch Cath Williams

13 am 10yb a 5yh: Y Gweinidog

20 am 10yb: Parch Huw Pritchard

27 am 10.30: Oedfa Deulu

Gwasanaethau Jerusalem (am 2.00 y prynhawn)

Medi

1: Mr Richard Lloyd Jones

8: Dim Gwasanaeth

15: Parch Gwynfor Williams

22: Parch Gwenda Richards

29: Dim Gwasanaeth

Hydref

6: Parch John Pritchard

13: Gwasanaeth Diolchgarwch

20: Mr Charles Wyn Jones

27: Dim Gwasanaeth



DINORWIG

Marian Jones. Ffôn: (01286) 870292



Tymor yr haf a'r gwyliau Anodd yw credu pan ddaw yr Eco allan o'r wasg fe fydd y gwyliau o'r tu cefn i ni ac, yn barod, mae'r dyddiau yn tynnu i mewn. Ni chawsom haf fel llynedd er y cawsom rai dyddiau arbennig o braf ond rhai andros o wlyb hefyd. Haul neu law yr oedd cryn dipyn o dynfa i'r Allt Ddu.

Cawsom yr Eisteddfod yn Llanrwst eleni a bu yn llwyddiant ysgubol. Bu imi ei mwynhau yn arw iawn. Credaf bod y Gymanfa yn un ardderchog eleni: canu a dim siarad. Diolch i S4C am ddarllediadau ardderchog o'r cyfan, gwerth chweil wir. Yr **Archdderwydd** yn gwneud ei waith yn hollol swyddogol heb dynnu dim sylw ato'i hun. Wythnos wedi mynd yn hynod o sydyn. Da iawn swyddogion yr eisteddfod.

Daeth cryn dipyn o wobrau i ardal yr Eco eleni eto.

Llongyfarchiadau i'r rhai a fu yn llwyddiannus.

Arholiadau Erbyn hyn mae y rhai yma o'r tu ôl a'r canlyniadau wedi dod a dim ond gobeithio bod llwyddiant wedi bod. Os nad oeddech yn hapus efo'r canlyniadau peidiwch digalonni. Dymuniadau gorau a llongyfarchiadau ichi a phob bendith ac iechyd i'r blynyddoedd a ddel.

Llongyfarchiadau Dymuna Nain a theulu Bron Eilian, dad a mam a Mererid, Gwêl y Wyddfa, longyfarch Tomos ar ennill ei radd yn y Coleg yn Llundain. Y teulu i gyd wedi cael mynd i Lundain i weld Tomos yn cael ei gapio ac yn derbyn ei radd. Mae yr ardal hefyd yn ymfalchio yn dy lwyddiant, Tomos.

Cofion Annwyl iawn at Mrs Megan Morris, Minffordd gynt sydd yn mynd ymlaen yn awr at y 105ed pen-blwydd. Eurwyn sydd yn hynod o ffyddlon iddi yn dweud bod ei fam yn weddol

dda. Braf yw deall ei bod yn dal ei thir ac rydym yn dymuno pob bendith ac iechyd iddi yn y flwyddyn 105. Pawb yn anfon ein cofion ati ac yn dymuno yn dda iddi.

Gwellhad Mae nifer wedi cael salwch yn ystod y gwyliau. Gobeithio y bydd pawb wedi gwella cyn y gaeaf. Dymunaf adferiad llwyr a buan i bawb sydd wedi gorfod mynd a dod i'r ysbytai. Brysiwch wella i gyd.

Marwolaeth Yn Ysbyty Gwynedd ar y 23ain o Fehefin, fe fu farw Eifion Griffiths o 12 Sŵn y Gwynt, Penisarwaun, (gynt o Bwthyn Foel, Dinorwig) yn frawychus o sydyn. Er nad yn aelod yn Eglwys MC byddai ef a Dylan yn mynychu y capel yn aml iawn ar y Sul a meddai ar lais canu ardderchog a thrwy hynny byddai'n help mawr efo'r canu. Colled i'r capel oedd iddo symud o'r ardal. Cydymdeimlwn â'r teulu a ffrindiau.

Plaid Cymru

Yn ddiweddar mae rhai ohonom wedi bod yn trafod y syniad o ail sefydlu cangen o Blaid Cymru i wasanaethu Deiniolen a Dinorwig, sef y pentrefi sydd yn ffurfio etholaeth y Cynghorydd Elfed Williams. Mae Elfed yn cefnogi'r syniad o ffurfio cangen.

Bwriedir trefnu cyfarfod cyhoeddus i drafod y mater yn gynnar ym mis Medi. Bydd manylion y cyfarfod ar gael maes o law. Yn y cyfamser mae croeso i unrhyw un sydd â diddordeb, neu sydd yn awyddus i gael mwy o wybodaeth gysylltu â:

Tony Elliott (ffôn 07798552238; e-bost tonyelliott17@yahoo.com) neu

Catrin Llewelyn Gruffudd (ffôn 07917411280; e-bost catrinllew@hotmail.co.uk)

Mrs Lowri Prys Roberts
Ffôn: 870580

Profedigaeth Roedd yn ofidus gennym ddeall am ymadawiad Eifion Lloyd Roberts, 8 Trem Eilian, ddiwedd mis Mehefin yn 91 mlwydd oed. Yn frodor o Lanfairfechan ond wedi treulio 66 mlynedd o fywyd priodasol gydag Euronwy yma ym Mrynrefail. Bu'n dilyn galwedigaeth o saer coed crefftus - yn briod a thad arbennig i Meilir, Delyth a'r diweddar Gwyn, taid llawn balchder i Llion a'i gymar Lindsey, Aron a Dylan a hen daid Anna Lois a Tomos. Mae ein cydymdeimlad â'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Diolch Carai Euronwy a'r teulu oll ddiolch yn gynnes am bob arwydd o gydymdeimlad ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth, am wasanaeth y Parch Marcus Robinson ddydd yr angladd ac i Meinir o Dylan Griffiths, Cyfarwyddwr Angladdau, am y trefniadau trylwyr.

Sefydliad y Merched Nos Iau, Mehefin 20fed, oedd noson y Trip Dirgel Blynyddol a oedd wedi ei drefnu gan y Llywydd, Pat Jones. Gyda phopeth wedi ei gadw yn gyfrinach, syrpreis arbennig oedd cyrraedd pentref Ysbyty Ifan i gartref Ela Jones, Meistres Gwisgoedd Gorsedd y Beirdd.

I gychwyn y noson mwynhawyd bwffe ardderchog wedi ei baratoi gan Ela a'i ffrindiau.

Yn dilyn cafwyd ein tywys drwy hanes storfa ddillad Gorsedd y Beirdd a gwaith Ela yn paratoi y gwisgoedd ar gyfer yr Eisteddfod mis Awst – eu golchi, smwddio a'u haddasu. Cawsom weld samplau o'r gwisgoedd gwyn, gwyrdd a glas, gwisgoedd yr Uwch Swyddogion ac yn arbennig gwisg hardd yr Archdderwydd. Cafodd ambell un gyfle i fodelu un neu ddwy o'r gwisgoedd. Roedd yn noson a fwynhawyd yn fawr a'n diolch pennaf am y cyflwyniad trwyadl a'r arddangosfa.

Mwynhaodd rhai aelodau Ginio Blynyddol y Ffederasiwn yng Ngwesty San Siôr, Llandudno, a gynhaliwyd ar Orffennaf 6ed.

Wedi gwaith caled am wythnosau lawer i ddatblygu ein harddangosfa ar gyfer y Gystadleuaeth Cwpan y Rhosynnau yn Sioe Amaethyddol Llanelwedd, rydym yn falch o gyhoeddi ein bod wedi ennill y gystadleuaeth arbennig hon ac ennill y wobr gyntaf ar ran Ffederasiwn Gwynedd – Caernarfon. Llongyfarchiadau i'n Llywydd a'r tim o Grŵp Eryri am arddangosfa gwerth chweil fel y gwelir yn y llun.

Hefyd dymunwn yn dda i'n llywydd, Pat Jones sydd yn derbyn triniaeth am ben-glin newydd.

Yr Eglwys Bresbyteraidd


Oedfaon Medi am 5 yr hwyr

- 1: Parch Marcus Wyn Robinson - Gweinidog
- 8: Parch Dafydd Ll. Hughes, Caernarfon
- 22: Canon Idris Thomas, Deiniolen
- 29: Mr T. Alun Williams, Caernarfon

Undeb y Mamau

Ddiwedd Mehefin cynhaliwyd Gŵyl Flodau yn eglwys Sant Mair i ddathlu canmlwyddiant y gangen yn Llanbeblig. Agorwyd yr Ŵyl gyda gwasanaeth o gymun bendigaid gyda'r Parch R. Donaldson yn gweinyddu. Roedd yr eglwys wedi ei haddurno gyda blodau o bob lliw a dail gwyrdd. Roedd arddangosfa o waith yr aelodau yn yr eglwys, yn cynnwys 'teddies' wedi eu gwau. Croesawyd ymwelwyr i'r eglwys gan aelodau o'r gangen gyda phaned a theisen. I orffen yr Ŵyl cynhaliwyd cymanfa ganu, a chafwyd cynulleidfda dda dan arweiniad Iwan Williams.

Bydd y gangen yn ail-ddechrau ar eu cyfarfodydd ar bnawn Mawrth, Medi 17eg gyda gwasanaeth o gymun bendigaid.



TEITHIAU CERDDED A DARGANFOD

MAWRTH 3 MEDI 10.00yb
 TAITH BLYNYDDOL “HWRE! MAE’R PLANT WEDI MYND NOL I’R YSGOL”
 CWM Y GLO I STABLAU (3½ milltir)
 CYCHWYN: CAFFI MENTER FACHWEN, CWM Y GLO
 EITHA HAWDD. SGIDIAU CERDDED.

MERCHER 11 MEDI 2.00yp
 BRYN BRAS A’R GWERSYLLT LLOSGI SIARCOL YN CWM Y GLO (3 milltir)
 CYCHWYN: CAFFI MENTER FACHWEN, CWM Y GLO
 CYMEDROL. SGIDIAU CERDDED.

IAU 19 MEDI 7.00yh
 EGLWYS LLANRUG: O’R OESOEDD CANOL I’R PRESENNOL (hyd at 1½ milltir)
 CYCHWYN: CAE CHWARAE GLAN MOELYN, LLANRUG
 EITHA HAWDD. SGIDIAU CERDDED.

Cysylltwch a Gareth Roberts yn Menter Fachwen ar 07867 810576 am rhagor o fanylion.
 Mae modd derbyn cylchlythyrau e-bost y CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD sydd yn nodi’r holl deithiau, gweithgareddau, arddangosfeydd a sgysiau’r cynllun trwy cysylltu a ‘garethroberts754@yahoo.co.uk’.

CYNLLUN CASGLU ENWAU LLEOEDD: CASGLU ENWAU PONCIAU A SINCIAU CHWAREL DINORWIG

Mae CYMDEITHAS ENWAU LLEOEDD CYMRU yn cyd-weithio gyda CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD MENTER FACHWEN i gasglu enwau ponciau a sinciau chwarel Dinorwig. Yn hyn o beth mae mapiau 24”/milltir eisioes arddangos yn Siop a Chanolfan Menter Fachwen yn 52 Stryd Fawr, Llanberis.

Mae’r mapiau arddangos yn ystod oriau agor y siop, sef 10-4 o Ddydd Mawrth i Ddydd Gwener (10-3 ar ddydd Mercher) nawr ac trwy’r hydref a’r gaeaf.

Mae croeso cynnes i bawb dod yno i ysgrifennu enwau’r ponciau i lawr ac i rhannu atgofion/ hanesion o’r chwarel. Mae’r Cynllun Cerdded a Darganfod’ hefyd yn casglu enwau plwyf Llanddeiniolen ac yn hyn o beth byddent yn trefnu gweithgareddau a nosweithiau yn Deiniolen, Penisarwaun a Bethel dros y gaeaf. Mae croeso i chi fynd i weld y mapiau i gyd yn Menter Fachwen yn Llanberis cyn hynny. Mae mapiau plwyf Llanrug i’w gweld yno hefyd.

Cysylltwch a Gareth Roberts yn Menter Fachwen ar 07867 810576 am rhagor o fanylion.



CHWILOTA

chwilota.wordpress.com

Ciperiaid Cae'r mynydd



Daeth mwy o wybodaeth i law yn ystod yr haf, ac mae'n ymddangos mai am tua 80 mlynedd yn unig y bu Cae'r mynydd yn 'dŷ cipar'. Bum yn chwilio drwy gyfrifiadau cynnar a darganfod mai ffermwyr oedd yno hyd o leiaf 1861. Daeth y newid yn dilyn dyfodiad George W. Duff i oed yn 1869 ac etifeddu stad y Faenol gan weddw yr hen Assheton Smith. Dewisodd yntau alw ei hun o hynny ymlaen yn G.W.Duff Assheton Smith.

Yn ystod y flwyddyn honno bu'n rhaid ail-arwyddo tenantiaethau ei holl eiddo ym mhlwyf Llanddeiniolen. Cytundebau unigol a geir bron yn ddieithriad, ond nid felly yn achos Cae'r mynydd. Mae'r eiddo yn cael ei gynnwys mewn lês i Thomas Roberts ar fferm y Castell, a hynny am £142 yn flynyddol. A ddaeth yn rhan o fferm y Castell bryd hynny? Ddwy flynedd yn ddiweddarach, yn 1871, ac nid ffermwr oedd yn byw yng Nghae'r mynydd ond labrwr mewn chwarel lechi (ni nodir pa chwarel) a'i deulu. Ni fu ffermwr yn byw yno wedyn.

Yn ystod y degawd wedi 1869 bu newidiadau gan G.W.Duff Assheton Smith a'i asiant i amgylchiadau ei denantiaid. Rhoddwyd terfyn ar yr hen arferiad ymhlith y tenantiaid o gyfnwid tir heb ganiatad y landlord. Ond yn fwy arwyddocaol defnyddiodd Asheton Smith ei hawl i berchnogaeth yr hen diroedd comin i sefydlu helfa grugieir ar ucheldir Trosgol a Moel Rhiwen. Mae'n bosib mai dyma'r cyfnod yr adeiladwyd wal gerrig saith troedfedd o uchder o amgylch y mynydd. Ac unwaith yr oedd grugieir ar y mynydd-dir, roedd angen cipar i gadw'r werin lwglyd rhag hawlio tamaid blasus i fwydo'u teuluoedd.


Dyma'r cyfnod pan ddaeth Cae'r mynydd yn 'dŷ cipar'. Mae'n debyg i Hugh Ross (gamekeeper) a'i deulu symud yno o ardal Llanrwst tua 1878. Roedd Hugh a'i wraig, Barbara yn enedigol o'r Alban, a'u plant John, Christiana a Charles wedi eu geni yn Llanrwst, ond roedd y bachgen ieuengaf yn 1881 – Donald, wedi ei eni yn Llanddeiniolen.

Nid helfa grugieir yn unig oedd ar y Trosgol a Moel Rhiwen. Tra'n chwilio am hanes y 'tŷ cipar' deuthum ar draws dogfennau yng Nghasgliad y Faenol yn cyfeirio at gwningar ar Foel Rhiwen. Ac ym mis Awst 1881 roedd G.W.Duff Assheton Smith yn arwyddo cytundeb deng mlynedd ar y "Moel Rhiwen rabbit warren". Y ddau berson a oedd yn fodlon talu £20 y flwyddyn am yr hawl ar y gwningar oedd Frederick de Breckem Newington a'i fam weddw, Mary Holmes Newington. Ar ddydiad arwyddo'r cytundeb roedd y ddau yn rhoi eu cyfeiriad fel 25 Segontium Terrace, Caernarfon. Tybed a oedd gan Hugh Ross gyfrifoldeb am warchod y cwningod hefyd?

Nid yw'n ymddangos i Frederick wneud diwrnod o waith gydol ei oes! Fe'i ganed yn Boughton Malherbe, swydd Caint, yn fab i offeiriad yn Eglwys Lloegr, ond wedi marw'r tad mae'n ymddangos mai crwydro'r wlad gyda'i fam fu ei hanes. Yn gynharach yn 1881 roedd ef a'i fam yn aros mewn tŷ lodjin yn Cheltenham, a'i fam yn nodi ei bod yn byw ar lŵg o incwm wedi ei fuddsoddi. Byw ar arian ei fam fu ei hanes wedyn mae'n debyg.

A wnaeth Frederick unrhyw ddefnydd o'r gwningar? Anhebyg, oherwydd mewn llai na chwe mlynedd o arwyddo'r cytundeb roedd G.W.Duff Assheton Smith wedi trefnu i blannu coed ar Foel Rhiwen i ddathlu Jiwbili'r Frenhines, ac yn nodi fod y safle "being converted from a rabbit warren." (Roedd Frederick erbyn hyn wedi symud i Gernyw, ble priododd wraig weddw gefnog yn ddiweddarach cyn symud i Newbury, Berkshire. Bu farw yn 1939 gan adael £17,253 yn ei ewyllys).

Cyflogwyd 150 o ddynion di-waith i ddechrau plannu'r coed ym mis Hydref 1887. Roedd y gwaith wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 1888. By Hugh Ross yn llygad-dyst i'r holl newid hwn ar lethrau Moel Rhiwen, tra'n parhau i warchod y grugieir ar ochr ddwyreiniol y mynydd a draw dros y Trosgol.



**GWAITH
COFFAOL
LLANRUG**

**Ffôn Gwaith
(01286) 672898**

**Cartref
(01286) 871833
Symudol 07778 127394**

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

*Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu Yr Holl Ardal*

Ffoniwch ar 1286 871833 (SYMUDOL - 07778127394)

Hefyd



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
*Cyrhaeddwr Mewn Steil- Mewn Cerbyd Rolls Royce
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDDI ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL*

Cipar olaf Cae'r mynydd

Daeth John Christison i Sir Fflint yn negawd cyntaf y ganrif ddiwethaf, mab David ac Isabella Christison o bentref Edzell, Forfar, yr Alban. Ym mis Mehefin 1910 priododd gyda Margaret Dunn ym Mhenarlag, ac erbyn cyfrifiad 1911 roedd y pâr priod yn byw yn Rhydtalog, Treuddyn ger Yr Wyddgrug. 'Gamekeeper' oedd wrth ei alwedigaeth.

Yn ôl tystiolaeth ysgrifenedig ar gefn y llun uchod ym meddiant Nicky Taysom, perchennog presennol Cae'r mynydd, symudodd John Christison i Gae'r mynydd yn 1915, a bu yno hyd 1957. Cafodd gopi

o'r llun gan un o ddisgynyddion John Christison a ddaeth i ymweld â'r hen gartref rai blynyddoedd yn ôl.

Un o ddisgynyddion John Christison yw Eleri Bean o Ddeiniolen. Roedd hi'n credu i'r teulu symud i Gae'r Mynydd ar ôl 1921, a hynny o ardal Minera ger Llandegla yn yr hen Sir Ddinbych. Ei hen daid, John Christison oedd y cipar yn ardal Minera. Bu ei fab, Leslie Christison, a fu'n byw yn ddiweddarach yn Nhŷ Capel Cysegr, Bethel, yn gipar rhan amser.

Cipar Coed Bolyn

Mae Eleri Bean hefyd yn enwi dau gipar arall oedd yn cael eu cyflogi gan y Faenol. Roedd Mr John Phillips yn byw yng Nghoed Bolyn, a chafodd fyw i'r oedran teg o 90 mlwydd oed. Bu farw tua 1977. Yn ôl gwybodaeth a dderbyniwyd gan Megan Roberts, Llanrug, yng Nghoed Bolyn bach roedd John Phillips yn byw; tŷ bychan, hen ffasiwn iawn, gyda grât anferth, a'r ieir yn rhannu'r gegin! Mae hi'n cofio mynd yno'n blentyn gyda'i thad, Tom Thomas, oedd yn casglu yswiriant. Byddai John Phillips yn cerdded i'w waith yn y Faenol mewn clociau, a thad Megan yn aml yn ei godi ar y ffordd, a'r un modd ar y ffordd adref ddiwedd

y diwrnod gwaith, gan arbed y dringo i fyny Nant y Garth. Roedd Miss Essex yn byw yno hefyd, a chredai Megan, er nad yn sicr, mai ei chwaer-yng-nghyfraith oedd y ddynes fechan honno. Roedd John Phillips a Miss Essex yn ddi-Gymraeg, a chredir mai o Gernyw y deuai'r ddau yn wreiddiol. Yn ddiolch am y cario answyddogol, byddai John Phillips yn aml yn cyflwyno cwningen fel rhodd i deulu Megan.

Yr ail gipar a gofia Eleri Bean yn gweithio i'r Faenol yn yr un cyfnod oedd Mr Speake, ond does dim mwy o wybodaeth amdano.

Teulu Abel Davies


Mwy o wybodaeth yn rhifyn Hydref. Diolch i bawb am gysylltu.

Cais am wybodaeth

Oes unrhyw un yn gwybod am y Parch James Eifl Hughes a fu'n weinidog yn Neiniolen a/neu yn Ninorwig yn y 1920'au? Credir iddo gael ei eni yn ardal Llanaelhaearn, a bu'n weinidog yn Llidiardau, ger y Bala cyn symud i'r fro hon. Roedd yn aelod cynnar o Blaid Cymru, ac yn byw yn Neiniolen pan newidiwyd

enw'r pentref o Ebenezer. Ganwyd merch iddo yn 1916, felly mae'n debygol y byddai wedi bod yn ddisgybl yn Ysgol Sir Brynrefail tua diwedd y 1920'au, ond does gen i ddim enw iddi. Efallai fod plant eraill hefyd. Roedd yn fardd, ac yn ysgrifennu yn y mesurau caeth.

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro'r "Eco", neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515)
e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com



FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922

Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU

DEWIS EANG O LUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwyr

www.fframia.com

BYSUS RHIWLAS

BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
Ffoniwch (01248) 361044



D. P. OWENS RHIWLAS



Cysylltwch â Dioni i siarad am eich bwthyn gwylia
Gwion Llwyd 01341 247 200 gwion@dioni.co.uk
BUSNES LLEOL...CWSMERIAID BYD EANG

DODREFN A LLORIAU

PERKINS

FURNITURE & FLOORING

01286 673535

www.perkinsfurniture.co.uk

16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1AG

Pob Lwc



Ein dymuniadau gorau i Mari Deiniol a Gwyn Elis Williams o Benrhos, Pwllheli, ar eu priodas ar Sadwrn, Gorffennaf 27ain yn Eglwys Santes Helen. Bu'r tywydd yn ffafriol a'r eglwys dan ei sang. Pob hapusrwydd i chi, Mr a Mrs Williams.

Eifion Griffiths, 12 Sŵn y Gwynt

Yn gynnar fore Sul, Mehefin 23ain, wedi salwch byr bu farw Eifion yn Ysbyty Gwynedd, Bangor, yn 92 mlwydd oed. Ganwyd Eifion yn Abergwyngregyn ac, ar wahân i'r amser a dreuliodd yn y Dwyrain Canol ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd, yno y bu'n byw nes priodi â Medwen o Gwynfryn, Dinorwig, yn y flwyddyn 1954. Aeth i fyw yn gyntaf i Tŷ Mawr ac wedyn i Bwthyn Foel gyda Medwen a'r plant, Gwenno a Dylan. Yn gymharol ifanc dioddefodd Medwen strôc ddifrifol ac, o hynny ymlaen, Eifion oedd y prif ofalwr ohoni hi a Dylan.

Wedi colli Medwen aeth Dylan ac Eifion i fyw i Bensiarwaun ac roeddynt wedi ymgartrefu yn iawn yno am dros ugain mlynedd. Roedd Gwenno wedi trefnu gwasanaeth prydferth i'w thad yn Amlwgfa Bangor i ddangos ei gwerthfawrogiad o'r gofal trylwyr a roddodd Eifion iddi hi, Medwen a Dylan drwy gydol ei oes.

'Yr hyn a allodd, efe a'i gwnaeth'. Eglwys St Helen

Gwasanaethau Mis Medi 11yb: Cymun Bendigaid bob bore Sul - bydd unrhyw wahaniaethau yn cael ei gyhoeddi yn y wasg leol neu ar hysbysfwrdd yr Eglwys.

Diolchgarwch am y Cynhaeaf Gobeithir cynnal yr Ŵyl eleni ar ddydd Sul, Hydref 13eg, a dydd Llun, Hydref 14eg. Fe gyhoeddir manylion llawn yn yr Eco nesaf. Cronfa'r Fynwent Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhoddion canlynol tuag at Gronfa Cynnal a Chadw'r Fynwent: £20 Mr & Mrs D. Owen, 7 Brynhyfryd Terrace; £20 Mrs Jennie Williams, 1 Rhydfadog, Deiniolen; £10 Mr S. Roberts, 2 Lôn Tŷ Gwyn, Caernarfon; £10 Dr W. Munro & Helen Evans-Munro; £30 Mair a Dennis Davies, Tregarth; £10 Mrs Dilys Williams, 7 Llys y Gwynt; £30 Er Cof am Mr & Mrs J. Pleming, Maes Gwylfa, Deiniolen gynt gan Mr & Mrs R. Pleming. Cartrefle. Llanrug.

Wythnos Weithgareddau a Charnifal. Fe hoffai swyddogion yr Eglwys ac aelodau o Bwyllgor y Carnifal ddiolch yn fawr i bawb am eu cyfraniadau, cymorth a chefnogaeth i'r wythnos weithgareddau a Charnifal y flwyddyn yma. Fe gafwyd wythnos hynod lwyddiannus ac roedd y tywydd yn ffafriol hefyd. Diolch arbennig i Lowri Prys Roberts, Arweinydd y Gymanfa Ganu a James Griffiths yr Organydd a Chôr Meibion Dinas Bangor a Chaergybi. Diolch yn fawr i Brifathrawes ac athrawon yr Ysgol Gymune a diolch arbennig i'r disgyblion am helpu i gloi yr wythnos weithgareddau yn y Gymanfa ganu drwy ganu mor wych! Diolch i bawb! Fe fydd cyfraniad yn cael ei wneud tuag at Barti Nadolig yr Henoed. Trist yw cofnodi bod dwy faner a physt a oedd ar y groesffordd yn Racca yn hysbysebu y Carnifal wedi diflannu. Nid yw rhain o werth i neb arall. Gwerthfawrogwn os oes modd eu dychwelyd os gwelwch yn dda!

Te Tost a Sgwrs Fe gynhelir Te Tost a Sgwrs yn Neuadd yr Eglwys pob dydd Llun o 9yb-11yb. Da yw gweld nifer yn mynychu ac yn cael cyfle i gymdeithasu ac ymlacio.

Barbeciw Fe bydd Barbeciw diwedd yr haf yn cael ei gynnal ar y tir ger yr Eglwys a'r Neuadd dydd Sadwrn, Medi 7fed, o 2yp-4yp. Nid oes tâl mynediad. Bydd castell neidio a stondinau ar gael yno. Os bydd yn bwrw glaw fe'i cynhelir yn Neuadd yr Eglwys.

Gyrfaon Chwist Cynhelir Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys nos Fawrth, Medi 17eg a 24ain. Ni fydd gyrfaon ddechrau y mis yma.

Bingo Arian Fe gynhelir y Bingo Arian yn Neuadd yr Eglwys pob nos Fercher - drysau yn agor am 7yh gyda'r Bingo yn ddechrau am 7.15yh.

Estynnir croeso cynnes i bawb ymuno yn yr holl weithgareddau a'r gwasanaethau.

Pwyllgor Neuadd Gymuned Clwb Cant Enillwyr mis Gorffennaf oedd R.H. Owen, Elidir; Pat Larsen, Llygad yr Haul.

Awst: Ann Ifans, Sycharth; Nia Oliver, Gors.

Medi: Erin Eifion, Siop Gron; Robin Griffith, Groeslon Isaf.

Mae croeso mawr i eraill ymuno â'r Clwb Cant am £6 y flwyddyn. Mae Archeb Banc ar gael. Y mae'n gymorth tuag at y gost o redeg y Neuadd Gymuned. Bu'r 'Miri Haf' yn llwyddiant eto eleni a diolchir i bawb a gefnogodd y gweithgaredd. Bu'r gystadleuaeth 'taflu esgid law' yn llawn hwyla diolchir i nifer o rieni am gymryd rhan yn y rasys. Bu'n noson gymdeithasol hwyliog dros ben. Y gweithgaredd nesaf fydd stiwardio ym Marathon Eryri yn niwedd mis Hydref. Bydd angen o gwmpas 12 - 15 o wirfoddolwyr ym Mhen y Pas i rannu diod a chroesawu'r rhedwyr. Bydd y Ras yn cychwyn am 10.30 y bore. Cynhelir Pwyllgor Neuadd nos Lun, Medi 9fed, am 7.00 o'r gloch.

Llongyfarchiadau Dymunir llongyfarch holl ieuenctid y pentref fu'n sefyll yr amrywiol arholiadau gan ddymuno pob llwyddiant iddynt i'r dyfodol. Pob dymuniad da hefyd i'r rhai sy'n cychwyn yn yr Ysgol Gymuned ac yn Ysgol Brynrefail.

Dyweddio Ein dymuniadau gorau i William, 7 Bryn Eglwys ac Allie o Canada ar eu dyweddiad yn ddiweddar. Pob hapusrwydd i'r ddau ohonoch.

Gwellhad Deallir bod nifer o ffrindiau yn derbyn triniaethau mewn ysbytai ar hyn o bryd. Rydym yn meddwl amdanoch ac yn dymuno'r gorau i chi.

Bedyddiadau Fore Sul, Gorffennaf 21ain, yng Nghapel Tabernacl, Efail Isaf, ger Pontypridd, cafwyd oedfa arbennig gyda phlant bach dau deulu yn cael eu bedyddio - Cian Harri a Lois Rhodd, plant bach Eurgain Haf ac Ioan, wŷr ac wyres Ann a Dafydd ac hefyd Harri - ffrind bach Cian a Lois.

Jane Eryl (Bontnewydd gynt) oedd yn gofalu am y bedyddiadau a diolchir iddi am wasanaeth hyfryd a theimladwy. Roedd yn braf cael sgwrs â Jane a Gareth wedi'r oedfa dros baned yn y Ganolfan. Mor braf oedd gweld Glenys Griffith (Bethel) wedi dod i'r gwasanaeth a chael ei chwmni am orig neu ddwy wedi'r oedfa.

Pêl Bonws Enillydd mis Gorffennaf oedd Twm Elis Jones, Llanfairpwll. Llongyfarchiadau i ti.

Eisteddfod Bentref 2019



Cafwyd Eisteddfod lwyddiannus a hwyliog yng nghwmni'r beirniad Llefarydd a Llenyddiaeth - Meirion Dauncey a'r beirniad Cerdd - Gethin Griffiths, y ddau o Fethel. Bu cystadlaethau'r Adran Cynradd o 3 oed a llai hyd at 11 oed yn galonogol iawn gyda ambell seren yn disgleirio.

Yn amlwg bu'r dewisiadau o ganeuon ac adroddiadau wrth fodd y plant a chafwyd Partion Canu clodwiw gan Adran bl 2 ac Iau a blwyddyn 3-6 gyda nifer dda wedi cefnogi, a mwynhawyd y Parti Cydadrodd gyda'r gerdd 'Sŵn', gan T, Llew Jones. Bu'r ymateb i'r Celf a chreffft a Ffotograffiaeth yn arbennig o safonol gyda'r plant yn amlwg wedi mwynhau cynhyrchu gwaith tu hwnt o ddiddorol am 'Yr Ardd' a'r 'Chwarel' a nifer dda wedi cystadlu ar Goginio gyda theisennau 'rice crispies' a 'pedair teisen gwpan' a phawb wedi dotio at 'Focsys Bwyd y Chwarelwr'. Bu'n anodd beirniadu'r gwaith Cyfrifiadureg gan bod cymaint o sgiliau i'w canfod am y Chwarel. Ardderchog wir!

Dymunir diolch i'r oedolion hefyd am gymryd rhan yn y Coginio, Arlunio a Ffotograffiaeth. Ein diolch i Sioned Mai am feirniadu'r Celf a Chreffft a'r Arlunio; i Jean Roberts - Coginio, a Dafydd Ifans - Cyfrifiadureg. Diolch i Anest Bryn a Lois Eifion, y cyfeilyddion medrus. Fe fwynhaodd Meirion ddarllen gwaith pob un fu'n cystadlu yn yr Adran Llên gan ddiolch i'r ysgol am gyflwyno gwaith y plant mor drylwyr a thalus. Roedd pedwar darn o waith dan ystyriaeth o ran

enillydd 'Tlws y Llenor Cynradd'. Cafwyd darn o waith ffeithiol yn llifo'n naturiol gan un ymgeisydd, darn o waith dramatig safonol gan un arall. Cerdd effeithiol gan Hippo a bardd gyda dawn dweud aeddfed yw Robin Dre. Oherwydd ei safon ieithyddol gref a dychmygus Robin Dre a gipiodd 'Tlws y Llenor Cynradd' eleni, sef Elaine Walker. Llonyfarchiadau mawr i ti a dal ati.

Cafwyd tair ymgais yn yr oedran blwyddyn 7-9 Rhyddiaith - dyddiadur chwarelwr ifanc a dwy stori gyda dychmyg byw dros ben. Dyfarnwyd Branwen ac Efa yn gydradd gyntaf gyda Mabli yn dynn wrth eu sodlau.

Un ymgeisydd gafwyd ym M1 10-13 yn dwyn yr enw 'Llyffant'. Stori wedi ei gosod yn daclus iawn gyda diweddglo clyfar a'r naratif cyfan yn llifo'n rhwydd. Bu'n anodd dewis Tlws y Llenor Uwchradd oherwydd eu cryfderau - Branwen am ei hiaith gadarn a'i haeddfedrwydd geiriol; Efa a Mabli am eu creadigrwydd clyfar ond Llyffant, sef Elin Jones, Bl 13, am y dawn dweud sy'n derbyn y Cwpan eleni. Llonyfarchiadau i ti, Elin, a dal ati.

Llwyddwyd i gynnal Parti Llefarydd Oedolion gyda 'Eifionydd' gan R. Williams Parry a chafwyd beirniadaeth deg gan Meirion a ddiolchodd i ni am gymryd rhan. Fe fwynhaodd Gethin y 'Gân Ysgafn', oedd yn apelio arno i ddod i arwain y parti gan nad oedd neb arall yn ddigon da! Ail a gawsom ond diolch i Magi Tudur am ein curo! Diweddglo'r Eisteddfod oedd llond



llwyfan ohonom, yn wŷr a merched profiadol, yn canu 'Dros Gymru'n Gwlad' ar y dôn Finlandia.

Bu beirniadaethau'r Limrig a chreu brawddeg o'r ymadrodd 'Cofiwch Dryweryn' yn ddifyr iawn gan Arwel. Dymunir diolch o galon i Andrea Patterson, Llywydd y noson am ei hanerchiad difyr, llawn atgofion am ei phrofiadau a mawr ein diolch iddi am ei chyfraniad ariannol hael iawn tuag at gronfa'r Eisteddfod. Cafwyd ymateb gwyb hefyd i 'Sgen ti Dalent?' gyda Elin Dafydd gyda'i datganiad cerddorol yn derbyn £30 a Mabli ac Efa yn derbyn £20 am ddeuawd swynol ar y fflwt. Diolch o galon i'r tair am roi gwefr i'r gynulleidfa. Hoffai'r pwyllgor ddiolch i bawb am eu cefnogaeth ac am bob rhodd a dderbyniwyd tuag at dreuliau'r Eisteddfod. Diolch i swyddogion y Neuadd a Phennaeth a staff yr ysgol am bob cydweithrediad ynglŷn ag Eisteddfod 2019. Edrychir ymlaen tuag at Eisteddfod 2020 yn barod.

Ysgol Sul Bosra Fore Sul, cyn gwyliau'r haf cawsom gwmni hyfryd Arthur a'i dad - cefndryd i Ifan a Ioan. Y teulu wedi dod drosodd o America am fis o wyliau i weld y teulu. Fe ymunodd Arthur yn y canu a gwrando'n astud ar Chwedl Aesop a mwynhau gwneud llun a chael parti bach ar y diwedd. Roedd yn braf clywed y tad yn siarad Cymraeg gyda Arthur. Gobeithio y cawn eu cwmni eto os byddant am ddod i Gymru ac anfonwn ein cofion anwylaf atynt. Rydym i gyd, yn blant ac oedolion, yn anfon ein dymuniadau gorau i Anti Liz, ein

Arolygwraig weithgar, sy'n disgwyl cael triniaeth frys i'w chlun. Mae mewn poen mawr ar hyn o bryd a dymunir gwellhad buan i chi, Anti Liz annwyl. Dymunir adferiad buan hefyd i Yncl Eric, gŵr Anti Liz, sy'n derbyn triniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd ar hyn o bryd - ein cofion hefyd at Phil. Mae Anti Ann yn apelio am gymorth y rhieni o 10.00 hyd 11.15 ar foreau Sul. Bydd yr Ysgol Sul yn ailgychwyn ar Fedi 15fed ac mae croeso mawr i aelodau newydd. Ar Fedi 29ain edrychir ymlaen yn eiddgar am gwmni Anti Susan o Gynllun EFE.

Gwobrwyo Medalau Gee 2019 Cynhelir cyfarfod cyflwyno a gwobrwyo Medalau Gee 2019 ar Sadwrn, 14 Medi, am 2 o'r gloch yng Nghapel Berea Newydd, Bangor. Gwobrwyir Ann Ifans (Anti Ann) ynghyd â 29 arall am eu teyrngarwch a'u ffyddlondeb i waith yr Ysgol Sul yng Nghymru. Bu Anti Ann yn aelod o Ysgol Sul Peniel, Rhiwlas, ers yn dair oed hyd 1974 ac yn dal yn athrawes yn Ysgol Sul Bosra ers 1977. Mae croeso agored i bawb ddod i'r cyfarfod arbennig hwn.

Diolch Dymuna Liz ac Eric, 17 Bryn Tirion, ddiolch o galon i bawb am yr holl ymweliadau a'r galwadau ffôn a phob cymwynas yn ystod cyfnod o anhwylder yn ddiweddar.

Cydymdeimlad Ein cydymdeimlad llwyraf â Catherine a Meirion Wyn Jones a Rhys ac Osian a'r teulu yn eu profedigaeth sydyn ac annisgwyl o golli mab, tad a thaid annwyl, sef Kevin.



Granvillefab parhad

(Dyma ail ran hanes Granvillefab yn America gan W. Arvon Roberts, Pwllheli.)

Rhwng 1889 a 1890 bu Granvillefab yn dysgu dosbarth cerddorol yn ei gartref yn Exeter yn ystod y gaeafau, ac yn arwain y canu yn y capel Presbyteriaidd yno. Ef hefyd oedd y cyntaf i dyfu coed orennau a lemon ar ei 300 erw o dir yn ddiweddarach yn yr ardal honno.

Ar Ionawr 5, 1896, cynhaliodd y Cymry gyngerdd yn Eglwys Gatholig St Ignatius, San Fransisco. Diddorol nodid fod nid yn unig Granvillefab yn bresennol, ond hefyd eraill o'i gydnabod o'i hen ardal yn Arfon gan gynnwys D. Manllwyd Jones, Llanberis yno yn canu (ymfudodd i Tacoma, Washington, yn Awst 1888);

D.G. Hughes, Buarthau, Llanllyfni; y Parch D.H. Jones, Llanberis, gweinidog gyda'r Presbyteriaid Saesneg yn Tacoma, Washington, a'i briod Annie Hope Jones; a Tom H. Evans, gynt o Lanberis oedd ar y pryd yn ennill poblogrwydd mawr iddo'i hun fel datgeinydd.

Wel Dowch i California

Wel, dowch i California,
Gwlad aur ac arian yw,
A gwlad mae ei thrigolion
Yn deall sut i fyw;
Rhyw Eden arall ydyw
Heb Adda i ddrysu'i rhawd,
A llawer i filiwnydd
A wnaeth o fachgen tlawd.

Wel, dowch i California,
I weld ei mawredd hi,
Mae'i golygfeydd rhamantus
Yn ennill iddi fri;
Daw pobl o bob rhyw wledydd
I yfed o'i mwynhad,
Ac nid oes neb a feiddia
Roi iddi un sarhad.

Wel, dowch i California,
Chwi hen ddwyreinwyr hoff,
Mae dwfr yn ei ffynhonnau
I wella'r claf a'r cloff;
Chwibana'i hawel fywyd
Tra'n siglo cangau'r coed,
A gwna i'r henwr feddwl
Ei fod yn ddeunaw oedd.

Wel, dowch i California,
Gwlad haf o hyd yw hon -
Ceir tywyniadau'r heulwen
I gadw'r bobl yn llon -
O Ionawr hyd fis Rhagfyr,
Meib llafur gyda brys
Yn gweithio'r amser oeraf
Heb gob i guddio'r crys.

Wel, dowch i California,
I weld ei ffrwythau mad,
Maent bron yn ddirifedi,
A'r tir yn ddigon rhad;
Addurnir drws y gauaf
Ac aurafalau fyrdd,
Nes gwneud i ddynion deimlo
Fod nef yn nheithio'i ffyrdd.

Wel, dowch i California,
Mae pawb yn hoffi dod
Ac os dychwelant adref,
hwy ânt tan ganu'i chlod;
Mae'i dolydd megis gwledydd,
Ac i ddiddosi'i phen
Ceir cadwyn o fynyddau
A'u pennau yn y nen.

Wel, dowch i California,
Enethod glân a llon,
Dywedir mai paradwys
I ferched ydyw hon;
Ac os daw awydd priodi
I'ch blino'r cwbl sydd raid
Yw dod i California
Yng nghesail Blwyddyn Naid.
Granvillefab, Exeter, California. 1896

Hydref 26, 1898, ailbriododd Granvillefab. Ei henw oedd Miss Emma Z. Bagley o dref Rough and Ready (cafodd yr enw hwnnw ar ôl Zachary Taylor 1784-1850, ffugenw Old Rough & Ready, deuddegfed arlywydd yr Unol Daleithiau yn ddiweddarach), yn Grass Valley, Sir Nevada, Califfornia. Americanes oedd Emma, ei thad o Maine ac yn arloeswr mwyngloddio a'i mam wedi ei geni yn Awstralia. Cynhaliwyd y briodas yn Eglwys Emmanuel, Grass Valley. Priodas dawel ydoedd a threuliont y mis mêl yn San Fransisco lle yr oedd rhai fechgyn Llanberis, Llanrug, Llanddeiniolen, Bangor a Bethesda yn eu croesawu; Manllwyd R. Davies (Orwigwr), R.J. Hughes, D.S. Hughes, H.J. Lloyd (Llwyd-rydd), R.O. ac eraill.

Cyfansoddodd Granvillefab nifer o ganeuon, rhai ar gyfer cerddoriaeth Cymraeg ac Americanaidd, gan gynnwys Gwenfron a Y Milwr Dewr (Dr Joseph Parry). Ar Awst 6, 1915, yn San Fransisco cafodd ei dderbyn yn aelod o'r Orsedd Americanaidd. Un o'i gyfeillion a chymydog oedd yn byw 300 troedfedd i ffwrdd oedd R.D. Williams, gynt o Lanberis, a fu farw ar ei aelwyd yn Penlan, Exeter ar Ebrill 12, 1916. Ganwyd ef yn Ty'n y Mynydd, yn agos i Bwlch y Groes. Cyn iddo ef ymfudo yn 1880 gweithiai ef i Granvillefab yn Chwarel Glyn Uchaf, Llanberis. Treuliodd ugain mlynedd yn y Black Hills, De Dakota, cyn iddo symud

i Exeter yn 1900, lle prynodd dir gan Granvillefab i blannu orennau. Hen lanc ydoedd ac iddo frawd, John D. Williams, yn Llanrug, a chwaer, Ellen Roberts, yn Butte, Montana. Bu R.D. farw yn ddiewyllys ac oherwydd hynny rhoddwyd ei eiddo yng ngofal y gweinyddwr cyhoeddus, A.E. Brooks, Visalia, Sir Tulare, a phenododd yntau Granvillefab i redeg y rans am y tro oherwydd ei gysylltiad agos ac ef, ac am iddo gadw ei lyfru cyfrifon am un mlynedd ar bymtheg. Aeth yr eiddo ymhen amser wedyn yn naturiol i'w frawd a'i chwaer a phlant ei frodyr a chwiorydd ymadawedig. Gwasanaethwyd yn ei angladd gan y Parch David Caledfryn Williams (m.1958) a anwyd yn Tŷ Capel Ysgoldy MC, Clwt y bont, Arfon (efallai caf sôn amdano ef rhywbryd eto yn y dyfodol). Claddwyd R.D. Williams ar ddarn o dir ym mhlot Granvillefab ym Mynwent Exeter.

Bu Granvillefab yn gyfarwyddwr i Cwmni Dŵr a Dyfrhad Exeter, oedd â'u camlas yn rhedeg yn ymyl ei eiddo, ac yn llywydd Cymdeithas Ffrwythau Sitris Exeter. Ar Ionawr 6, 1928, yn 76 mlwydd oed bu Granvillefab farw yng nghartref Ellen Cox yn Visalia, lle y preswyliai ef ers pedair blynedd. Claddwyd ef yn Exeter. Gwasanaethwyd unwaith eto gan ei hen gyfaill, y Parch D. Caledfryn Williams, gweinidog Presbyteriaidd Saesneg yn Exeter.



CYMANFA: Cynhaliwyd Cymanfa Gyffredinol Eglwys Bresbyteriaidd Cymru eleni ym Mhrifysgol Glyndwr ac Eglwys y Drindod, Wrecsam. Mewn cyfarfod cyhoeddus ar y 9fed o Orffennaf, trosglwyddwyd Llywyddiaeth y Gymanfa i Weinidog Capel Caeathro, Y Parchedig Marcus Wyn Robinson, BD, RN. Llongyfarchiadau mawr iddo.

CAPEL: Gwasanaethau – Croeso nôl i bawb wedi toriad byr dros gyfnod yr Hâf. Ar y 1af o Fedi bydd Gwasanaeth am 2:00pm dan arweiniad y Gweinidog, y Parchedig Marcus Wyn Robinson. Ar y 15fed o Fedi bydd Gwasanaeth dan arweiniad y Boneddwr Dafydd Iwan.

NOSON COFIO DEWI: Ar nos Sadwrn yr 28ain o Fedi am 7:30pm, bydd Noson Blasu Gwin yng nghwmni Marcus Wyn Robinson yn y Bar yng Nglan Gwna. Cynhelir y noson i gofio'n gynnes am Dewi, Erw Wen. Bydd Marcus yn rhannu ei arbenigedd am amryw o winoedd y Byd yn ei ffordd hwyliog, di-hafal ei hun! Ymunwch gyda ni i ehangu eich gwybodaeth ac i rannu eich atgofion. Bydd tocynnau yn £15 yr un, gydag elw'r noson yn cael ei gyfrannu tuag at elusen o ddewis teulu Dewi. Cysylltwch gydag unrhyw aelod o Bwyllgor Cae Chwarae'r pentref i sicrhau eich tocyn, neu gallwch yrru neges i'r dudalen Facebook, 'Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro'. Peidiwch ac oedi – mae'r niferoedd yn gyfyngedig a mynediad drwy docyn yn unig!

LLONGYFARCHIADAU: Llongyfarchiadau i Hywel Jones (13 Erw Wen) ac Osian Eryl (Bryn Mair) wedi i'r ddau raddio o Brifysgol Bangor yn ddiweddar. Llongyfarchiadau hefyd i holl bobl ifanc y pentref sydd wedi derbyn eu canlyniadau Lefel A a TGAU dros yr wythnosau dwythaf. Pob hwyl i bawb gyda chamau nesaf eu gyrfaedd - da iawn bawb!

PENBLWYDD HAPUS: Penblwydd hapus iawn i Dilys Griffiths, Delfryn, sydd wedi dathlu penblwydd arbenning yng nghanol Awst. Dymuniadau gorau i chi Dilys.

A4085 AR GAU: Bydd yr A4085 rhwng Caeathro (Glan Gwna) ac ardal Peblig ar gau am gyfnod rhwng y 1af o Hydref 2019 a'r 28ain Chwefror 2020. Bydd y lôn ar gau er mwyn gwarchod diogelwch y gweithwyr a fydd yno yn adeiladu'r 'bypass' newydd. Mae'r cwmni bysiau yn ymwybodol o'r sefyllfa a byddant yn defnyddio llwybr amgen sydd wedi ei ddarparu. O ganlyniad, bydd rhai newidiadau i'r amseroedd pan bydd y bysus yn cyrraedd/gadael – cadwch lygad ar amserlen y safle bws neu ar wefan Cyngor Gwynedd ynglŷn â hyn. Bydd y lôn ar gau i bob math o gerbyd, i gerddwyr ac i feicwyr am y cyfnod hwn.

CREFFT, CANASTORI: Ar ol dechreuad addawol cyn y Gwyliau, bydd sesiynau 'Crefft, Can a Stori' ar gyfer plant Adrian Iau yr ysgolion Cynradd yn parhau yn ystod yr Hydref. Bydd y cyfarfod nesaf ar ddydd Sul yr 8fed o Fedi yng Nghanolfan y Capel am 2:30pm. Wedyn, bydd cyfarfod ar yr ail ddydd Sul ym mhob mis tan ddiwedd y flwyddyn. Mae croeso i holl aelodau'r teulu fynychu a chefnogi'r sesiynau – cyfle gwych i gymdeithasu dros baned! Croeso mawr i bawb o unrhyw le i fynychu a mwynhau'r gweithgareddau gyda Susan.

CWRS CELF: Pob bore Mercher o'r 18fed o Fedi ymlaen bydd Cwrs Celf yn cael ei gynnal rhwng 10:00am – 1:00pm yng Nghanolfan y Capel. Y tiwtor fydd Marirose Pritchard o Gaernarfon. Gofynnir i'r sawl sydd â diddordeb i gysylltu â Marirose drwy e-bostio caernarfonartclass@gmail.com i archebu lle ar y cwrs. Dim profiad blaenorol yn angenrheidiol felly dewch yn llw.

TYNFAMISOL:

- 1af (£40) – Rhif 96: Norma Evans;
- 2il (£25) – Rhif 39: Gary & Kim (Penlon);
- 3ydd (£15) – Rhif 5: Betsan Ceiriog (4 Erw Wen);
- 4ydd (£5) – Rhif 43: Myfyr Jones (Plas Glangwna).

Elusen

CRONFA GOFFA R.H. OWEN

Gwahoddir ceisiadau oddi wrth ymgeiswyr cymwys o ddalgylch YSGOL BRYNREFAIL am grantiau o'r gronfa uchod ar gyfer hyrwyddo addysg bellach yn cynnwys cyrsiau galwedigaethol blwyddyn academiaidd 2018-2019

Am ffurflen gais anfonwch at yr ysgrifennydd Mrs Heather Jones, 3 Maes Padarn, Llanberis, LL55 4TE.

cronfarhowen@aol.
Heatherjones37@aol.com
07867 982518

DYDDIAD CAU: Hanner Nos 31 Hydref 2019.



Siân Gwenllïan
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a hi yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076

Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076

new
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

Prif ddisgyblion 2019-2020

Llongyfarchiadau i'r canlynol ar gael eu hethol yn Brif ddisgyblion a Dirprwy Brif Ddisgyblion – Gwenllian Griffiths ac Ynyr Pritchard yn Brif Ddisgyblion, Beca Jones a Rhydian Williams yn Ddirprwy Brif Ddisgyblion. Roedd safon y ceisiadau ar gyfer y swyddi hyn yn hynod o uchel. Yn ychwanegol at hyn fe fydd Anna Whiteside, Elen Williams, Iolo Roberts, Twm Herd ac Osian Thomas yn derbyn swyddi o gyfrifoldeb er mwyn arwain ar feysydd penodol o fewn eu cryfderau yn yr ysgol.

Tim y Flwyddyn!



Ar nos Lun, Gorffennaf y cyntaf cynhaliwyd Noson Wobrwyo Chwaraeon Gwynedd a Mon. Rydym yn hynod o falch fod tim Pel-Rwyd Dreigiau Brynrefs wedi ennill y wobwr Tim y Flwyddyn a daeth Anya Wharton o flwyddyn 8 yn 2ail yng nghategori Merch y flwyddyn. Noson wych iawn i Ysgol Brynrefail!

Blwyddyn 8 yn gweithio yn y gymuned



Fel ysgol rydym yn falch o'r cysylltiad agos sydd gennym gyda'r gymuned leol. Un cyswllt pwysig iawn sydd wedi ei ddatblygu eleni yw'r un gyda Chanolfan Breswyl Hafan Elan yn Llanrug. Bu Grwp Cyswllt blwyddyn 8 yn rhan o brosiect Garddio yn Hafan Elan yn ystod tymor yr haf. Bu Ian Jones o flwyddyn 8 yno deirgwaith i helpu gyda'r gwaith garddio a thwtio ac aeth criw o 5 i gyd ar y trydydd achlysur i

gynnig cymorth sef Ian Jones, Kieran Parry-Humphreys, Tomas Lewis, Cian Williams a Josh Jones. Mae canolfan gymdeithasol Hafan Elan yn cael ei adnewyddu yn y dyfodol agos felly bu'r hogia wrthi yn tacluso, chwynu, plannu, sandio a phaentio. Trefnwyd y prosiect ar y cyd rhwng Cartrefi Cymunedol Gwynedd, Trac ac Ysgol Brynrefail ac roedd yn llwyddiant ysgubol!



Prom blwyddyn 11

Cafwyd diwrnod hynod o lwyddiannus ar Orffennaf Sed pan gynhaliwyd prom blwyddyn 11 i ddathlu cwblhau'r flwyddyn a'r arholiadau TGAU. Daeth y disgyblion i'r ysgol yn edrych yn arbennig yn eu dillad bendigedig. Roedd pawb yn werth eu gweld! Wedi tynnu lluniau aeth y disgyblion a'u hathrawon dosbarth ymlaen i'r Vic am bryd o fwyd tri chwrs a chyflwyniadau hwyliog yno yn ogystal â disgo i orffen y dathlu. Roedd pawb wedi mwynhau'r diwrnod a diolch i'r rhai a fu'n brysur yn trefnu er mwyn sicrhau bod Prom 2019 yn un arall llwyddiannus iawn.



Merched y Wawr yn boddîr cynhaeaf



Ar gyfer ein taith ddiwedd y tymor, fis Mehefin, aeth Merched y Wawr Deiniolen ar ymweliad â distyllfa chwisi a gin Rhaedr Aber (Aber Falls) yn Abergwyngregyn. Gyda Derfel o gwmi bysiau Rhiwlas wrth y llyw, cawsom ein cludo i Aber yn ddiogel, gan gasglu ein haelodau ar y ffordd a chyrraedd y ddistyllfa ac ymgasglu yn y siop i gyfarfod â'n tywysydd. Wrth gerdded o gwmpas a chlywed hanes y broses gynhyrchu, a sylly ar y crochenni a'r cawgiau copr a bras anferth, dysgwyd, er mai gin y ddistyllfa sy'n fwyaf enwog i ni y dyddiau hyn o bosibl, bod chwisi'n cael ei gynhyrchu'n helaeth yn Aber hefyd, a bod y ddistyllfa gin wedi'i chreu i fedru creu cynnyrch yn gyflymach, gan fod chwisi yn cymryd dros dair blynedd i aeddfedu, cyn ei botelu. Roedd yn rhaid tynnu lluniau i gofio'r ymweliad, wrth gwrs, a blasu'r cynnyrch, ac roedd detholiad hyfryd o samplau i'w profi, gan gynnwys gin blas riwbob a sinsir, a blas marmalêd oren, ynghyd â liquer coffi a siocled tywyll, a digon o gynghorion ar sut i weini'r gwirodydd (efo hufen iâ neu goffi, neu lefrith?). Roedd tipyn o gic ynddynt, ac roedd y noson yn dal i wella wrth inni alw i gael bwyd ar y ffordd adre ym mwyty'r Llechen yn Nhal-y-bont, ger Bangor, ble cawsom groeso cynnes a digon o ddewis o fwyd arbennig o dda. Hyfryd yw mynd ar deithiau yr adeg hon o'r flwyddyn heb betruso dim am ambarel, menig a dillad glaw, ac yn bendant heb lampau golau, gan iddi barhau'n olau nes inni gyrraedd adref am 10.30 yr hwyr bron! Diolchodd Marian Williams, ein cadeirydd, i Jackie Jones, trefnydd y daith, am ei gwaith trylwyr unwaith eto.

Mae rhai o'r aelodau eisoes wedi cwrdd i drefnu rhaglen y tymor nesaf, ond gall merched sydd â rhagor o syniadau eu cyflwyno i'r ysgrifennydd, Mrs Beryl Owen, cyn gynted a phosibl. Bydd cyfarfod cynta'r tymor newydd nos Lun, 16 Medi 2019, pan fydd croeso i unrhyw aelodau newydd.

Nodyn i'r dyddiadur: Bydd Eisteddfod Gadeiriol Deiniolen a'r Cylch 2019 yn cael ei chynnal nos Wener, 25 Hydref a phnawn Sadwrn, 26 Hydref eleni, ac mae'r paratodau ar ei chyfer yn mynd rhagddynt. Bydd y nos Wener yn canolbwyntio bron yn llwyr ar gystadleuaeth Ysgoloriaeth berfformio arbennig i bobl ifanc o dan 25 oed a fydd yn cynnig gwobr hael iawn. Gallwch gael y rhaglen yn eich siop Gymraeg leol, neu drwy ffonio'r ysgrifennydd ar 07546 926582.

Cymdeithas Lenyddol Bydd y Gymdeithas Lenyddol yn ail ddechrau ar yr 23ain o Fedi 2019, gyda noson yng nghwmni Mr Neville Hughes, Bethesda, yn trafod dyddiau difyr tra yn aelod o Hogia Llandygai. Cyfarfod i ddechrau am 7.00 yn Nhŷ Elidir. Croeso i aelodau hen a newydd.

Diolch Dymuna Alun Evans, 32 Stryd Newydd, ddiolch yn fawr iawn i'w deulu a ffrindiau am yr holl gardiau ac anrhegion a'r arian ar ei ben-blwydd yn 80. Diolch yn fawr.

Eglwys Crist - Y Fynwent - Diolch i Mr Berwyn Jones am ofalu bod y fynwent mewn cyflwr taclus, mae hyn yn bosib oherwydd haelioni caredigion sydd yn ein cynorthwyo i gario'r gwaith ymlaen. Fel y gwyddoch, mae gwaith atgyweirio i'w wneud ar yr adeilad, ac er mwyn cyflawni'r gwaith mae angen arian. Yn ystod mis Mai eleni cynhaliwyd Sioe Geffylau ym Mryn Derw, Brynrefail, trwy garedigrwydd Huw Llestyn Griffith, a gwnaed elw sylweddol yn ystod y diwrnod. Noddwyd Len Jones, Warden yr Eglwys, pan gyflawnodd gamp ar y 'wifren wib' ym Methesda. Diolch i bawb a gefnogodd Len o Fro'r Eco a thu hwnt. Os oes rhai ohonoch sydd â chysylltiad ag Eglwys Crist, byddwn yn dra diolchgar am eich cymorth ac am eich rhoddion, er mwyn dyfodol yr Eglwys yma yng Ngwaun Gynfi.

Neges gan y Cynghorydd Elfed Williams Ar y 31ain o Orffennaf bu i Mr Steffan Jones, Pennaeth Prifffyrdd Cyngor Gwynedd, ymweld â Chlwt y Bont a Deiniolen gyda'r Cynghorydd Elfed Williams er mwyn cynnal asesiad o'r lonydd i gyd. Mae Mr Steffan Jones wedi addo ymateb yn ôl i'r Cynghorydd Elfed Williams cyn gynted a phosibl. Bydd yn parhau i bwyso ar y Cyngor er mwyn cael atebion brys i'r sefyllfa.

Claddedigaeth Ar fore Sadwrn, Gorffennaf 20fed, ym mynwent Macpela claddwyd llwch Enid Jones a oedd yn 91 oed. Ganed Enid Jones yng Nghae Canol, Y Fachwen, ar Orffennaf 25ain, 1927, yn unig blentyn. Priododd â Griffith Jones o Bryn Gelli, Talysarn, ar Tachwedd 3ydd 1954, a buont yn briod am bron 62 o flynyddoedd ac ar aelwyd ei phriod y buont fyw. Roedd ei phriod, Griffith, y fenga o naw o blant. Ar ôl colli ei phriod yn Hydref 2016 symudodd Enid i Gartref Gofal Trosnant yn Rhuthun, bu yn Ysbytai Glan Clwyd a Rhuthun a bu farw yn dawel yng Nghartref The Headlands yn Llangollen ar y 15fed o Ebrill eleni. Bu i'r fagwrfu gynnar gan ei rhieni yn y Fachwen, ynghyd â dylanwad y Capel a'r Ysgol roi sylfaen bywyd arbennig iddi ac nis anghofiodd am hyn drwy ei hoes hir. Cadwodd gysylltiad byw â'i chynefin cynnar, a roes y cyfan iddi, ac ysgrifennodd lu o atgofion gwerthfawr am hyn oll drwy ei hoes. Y prif alarwyr oedd ei mab, Robert Arwyn a'i briod Mari o Rhuthun, a'i merch, Sioned a'i phriod Robert, o Llanharan. Y Canon Idris Thomas, Glanrafon, oedd yn gwasanaethu.

Plaid Cymru

Yn ddiweddar mae rhai ohonom wedi bod yn trafod y syniad o ail sefydlu cangen o Blaid Cymru i wasanaethu Deiniolen a Dinorwig, sef y pentrefi sydd yn ffurfio etholaeth y Cynghorydd Elfed Williams. Mae Elfed yn cefnogi'r syniad o ffurfio cangen.

Bwriedir trefnu cyfarod cyhoeddus i drafod y mater yn gynnar ym mis Medi. Bydd manylion y cyfarfod ar gael maes o law. Yn y cyfamser mae croeso i unrhyw un sydd â diddordeb, neu sydd yn awyddus i gael mwy o wybodaeth gysylltu â: Tony Elliott (ffôn 07798552238; e-bost tonyelliott17@yahoo.com) neu Catrin Llewelyn Gruffudd (ffôn 07917411280; e-bost catrinllew@hotmail.co.uk)



Y Storfa Spar Llanrug

Sgwâr Llanrug
01286 673108



Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd,
Cardiau Cyfarch, Swyddfa Bost

Llun - Sadwrn 6:30am - 9 pm, Sul 8am - 9pm

Parhad DEINIOLEN



Hwyl a sbri yn Neiniolen wrth ddathlu'r 10!



Mabolgampau, tynnu rhaff, gwisg ffansi, ras hwyl plant 1K, ras 0k, te prynhawn, helfa drysor, cwis, dartiau, snwcer, pŵl, brenhines y carnifal – yr holl ystod o weithgareddau fu'n rhan o Wyl Deiniolen a'r Cylch yn ddiweddar. A dathliad go arbennig fu hi hefyd, wrth ddathlu pen-blwydd yr Wyl yn 10 oed. A doedd dim modd cael digwyddiad yn Neiniolen, heb fod yr arwr lleol ei hun, y cyn bêl-droediwr cenedlaethol, Malcolm Allen yn galw draw i gyflwyno'r carnifal ar y llwyfan yn ystod y dydd. Yn ôl y Cynghorydd lleol, Elfed Williams, sydd hefyd yn Ysgrifennydd yr Wyl: "Mae'r diolch mwyaf yn mynd i'r pwyllgor am eu gwaith trefnu eto eleni. Dydi'r rhan fwyaf o bobl sy'n mynychu'r Wyl ddim yn llwyr sylweddoli cymaint o waith trefnu sydd ar y digwyddiad yma. Ac mae cydweithio efo'r tîm yma yn faint i mi. Diolch i'n Cadeirydd, Carwyn Thomas, a'n Trysorydd prysur, Eurwyn Jones.

"Rhaid i mi hefyd enwi gweddill aelodau'r pwyllgor, Mandy Hughes, Glyn Gruffudd, Dewi Rees Williams, Tony Maxwell, Marina Marzelos, Ffion Jones a Menna Bingham, heb anghofio Carolyn Williams a Katie Lynne Williams, sydd wastad mor barod eu cymorth gyda'r gwisgoedd. Diolch i chi am wneud yr Wyl yn un i'w chofio i'n cymuned fach ni!

"Mae ein diolch, fel arfer yn mynd i'r holl noddwyr am eu cefnogaeth ariannol. Ein prif noddwr eto eleni oedd Emlyn Cole Jones, diolch yn fawr iddo am ei haelioni. Mae'r rhestr o'r holl noddwyr yn rhy hir i'w rhestru, fe'i gwelwch ar y we, ond diolch am eich caredigrwydd a'ch cefnogaeth i waith y gymuned yma yn Neiniolen.

"Yr un modd gyda'r cwmnïau gyfrannodd wobrau i ni ar gyfer yr holl raffl. Maent wedi eu rhestru ar ein gwefan ond diolch i chi am eich cefnogaeth i ni eleni, bydd nifer yr enillwyr yn sicr o fwynhau'r gwobrau hael.

"Heb stiwardiaid, fyddai ddim modd cynnal yr Wyl. Maen nhw'n griw diwyd, yn gweithio'n galed ac yn deall eu gwaith. Rydym yn ddiolchgar i chi am eich cymorth parod i sicrhau bod pethau'n rhedeg yn rhwydd ac yn ddiogel.

"Diolch i Gwynfor a Wendy James am eu gwaith caled, i Catrin Gwilym, Prifathrawes Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen a'r tîm gwych o staff am eu cefnogaeth, staff Cymorth Cyntaf oedd yn bresennol, i'r Majorettes ac i staff Menter Fachwen.

"Diolch i bawb ddaeth draw, a gymrodd ran ac a wnaeth yr Wyl yn un arbennig wrth ddathlu'r degfed pen-blwydd. Hei lwc y bydd Gŵyl Deiniolen a'r Cylch yn parhau am ddeng mlynedd arall a chyfle i ddathlu'r 20 yn fuan. Diolch yn fawr iawn i bawb!"

Trigolion Clwt y Bont yn taclo hunllef baw cŵn



Mae trigolion ardal Deiniolen yn Arfon wedi cael hen ddigon o broblem baw cŵn yn eu cymuned, yn enwedig gan fod hyn yn bygwth iechyd plant yr ardal. Wedi cyrraedd pen eu tennyn fe aeth pobl Clwt y Bont at dîm Trefi Taclus Cyngor Gwynedd am gymorth i dacro'r broblem.

Meddai Gwawr Wyn Roberts, sy'n aelod o Gyngor Cymuned Llanddeiniolen: "Mae problem llygru gan faw cŵn ym mharc chwarae plant Clwt y Bont yn achosi pryder i drigolion lleol gan

ei fod yn gallu trosglwyddo afiechydon peryglus i bobl. Mae'r ffaith bod rhai perchnogion cŵn ddim yn gwaredu'r gwastraff mewn modd priodol yn siomedig iawn.

Gofynnwn yn garedig i holl berchnogion cŵn ddefnyddio biniau gwastraff baw cŵn, neu biniau eu hunain, i waredu'r baw os gwelwch yn dda. Bydd hyn yn gwneud ein pentref yn un glanach a diogel."

Mae'r Cynghorydd Sir lleol, Elfed Williams hefyd yn annog perchnogion cŵn yr ardal i gymryd sylw o'r arwyddion ac i roi'r bagiau baw cŵn mewn bin. Mae'r arwyddion coch diweddaraf hefyd yn atgoffa pobl bod dirwy o £100 yn y man a'r lle i rai sy'n anwybyddu'r rhybudd.

Dywedodd y Cynghorydd Williams: "Rydym wedi cydweithio â Threfi Taclus nifer o weithiau i geisio a chodi ymwybyddiaeth am y broblem, gyda phlant Ysgol Gwaun Gynfi hefyd yn rhan o'r ymgyrch trwy greu poster lliwgar i osod yn y pentref. Mae'n ofnadwy gweld cymaint o faw ar lwybrau'r meysydd chwarae, felly dwi'n erfyn ar holl berchnogion cŵn yr ardal i ddal sylw a gwaredu'r baw mewn bin."

Yn dilyn trafodaethau gyda Threfi Taclus Cyngor Gwynedd am y problemau baw cŵn yn yr ardal, mae cyflenwad o fagiau bioddiraddadwy wedi'u gadael yng nghanolfan gymdeithasol Tŷ Elidir yn Neiniolen, ac maent am ddim at ddefnydd perchnogion cŵn yr ardal.

Am ragor o wybodaeth am gynllun Trefi Taclus Cyngor Gwynedd, cysylltwch gyda'r tîm ar 01766 771000 neu e-bostio trefitaclus@gwynedd.llyw.cymru

Mae'n flwyddyn bwysig i Antur Waunfawr, wrth ddathlu ei ben-blwydd yn 35 oed!



Wedi'i sefydlu ym 1984 gan R. Gwynn Davies, mae Antur Waunfawr yn darparu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant i oedolion ag anableddau dysgu yn eu cymuned. Mae'r fenter gymdeithasol wedi tyfu'n sylweddol dros y 35 mlynedd diwethaf, ac mae bellach yn rheoli 15 o fusnesau ar draws pedwar safle, wrth gefnogi 67 o unigolion ag anableddau dysgu ac yn cyflogi dros 100 o staff.

Dathlodd yr Antur mewn steil, gyda Ffair Haf ar eu safle Waunfawr, ac yna gig nos yn Galeri Caernarfon, yng nghwmni Gruff Rhys.

Roedd ffair yr haf yn llwyddiant mawr, gyda cherddoriaeth fyw gan Phil Gas a'r Band a SERA, perfformiadau gan Ddoniau Cudd, adloniant i blant gyda Sgiliau Sycas Cimera a Swigod Dr Zigs, a stondinau bwyd, diod a chreffft.

Dywedodd Menna Jones, Prif Weithredwraig Antur Waunfawr: "Fe gawsom ni ddiwrnod gwych yn ein gŵyl haf eleni. Mae'r gymuned leol wrth wraidd popeth a wnawn, ac roedd y cyfle i ddathlu 35 mlynedd gyda'n ffrindiau a'n cefnogwyr yn golygu llawer iawn i ni."

"Mae iechyd a llesiant yn ganolog i holl wasanaethau Antur, ac roedd ein ffair haf eleni wedi'i sefydlu ar y thema yma, gyda gweithgareddau newydd megis beicio a cherddoriaeth ar gyfer y teulu cyfan. Roedd yr haul hyd yn oed wedi gwneud ymddangosiad arbennig i ni!"

Parhaodd y dathliadau fewn i'r nos, gyda gig arbennig 'Antur 35: Gruff Rhys' yn Galeri, Caernarfon. Cychwynnodd y noson gyda

Dyl Mei yn darparu adloniant yn y bar, cyn perfformiad gwych gan unigolion Antur Waunfawr dan arweiniad y cerddor Annette Bryn Parri. Mae Annette wedi bod yn cynnal sesiynau cerddoriaeth reolaidd yn Antur, a chafodd yr unigolion dderbyniad anhygoel ac emosiynol gan y dorf.

Yna, wnaeth Gruff Rhys gymryd i'r llwyfan i arwain noson anhygoel o gerddoriaeth Gymraeg acwstig. Yn adnabyddus am ei waith unigol ac am ei lwyddiant gyda'r Super Furry Animals, mae Gruff wedi bod yn gefnogwr o waith Antur Waunfawr ers blyneddau. Ymwelodd Gruff ag Antur Waunfawr ddiwethaf yn 2012 fel rhan o'i ymchwil i brosiect 'American Interior', wrth iddo ddilyn ôl troed yr archwiliwr a'i hynafiad o'r 18fed ganrif, sef John Evans, o Waunfawr.

Mewn tro annisgwyl, gwnaeth y pyped ac allor John Evans - a aeth Gruff gydag ef ar ei daith o amgylch America - ymddangosiad arbennig fel rhan o'i set ar lwyfan y Galeri. Mae Gruff nawr wedi anrhegu'r pyped ac allor i Antur Waunfawr ac felly, mewn teyrnged addas, mae John Evans wedi dychwelyd adref i bentref Waunfawr!

Dywedodd Haydn Jones, rheolwr ailgylchu Antur Waunfawr: "Rydym yn ddiolchgar iawn i Gruff Rhys am ymuno efo ni i ddathlu'r pen-blwydd a'r garreg filltir hon, roedd unigolion Antur Waunfawr wedi gwir mwynhau'r profiad o'i gefnogi ar y llwyfan.

"Mae'r dathliadau hyn wedi atgyfnerthu'n gwerthoedd o fewn y gymuned, ac rydym yn ddiolchgar i'n holl gefnogwyr dros y trideg pum mlynedd diwethaf, nawr ymlaen i'r trideg pump nesaf!"

Clwb 300 y Ganolfan

Enillwyr mis Gorffennaf: £30: Graham Rowlands, Arfon House; £20: Zoey Aindow, Sŵn y Gwynt; £10: Mererid Llwyd, Cae Rhos Enillwyr Awst: £30: Nia Hughes, Min y Grug; £20: Hawys Tuff, Crymllwyn; £10: Sara Davies, Bryn Melyn.

Mae tymor yr haf yn prysur dynnu at y terfyn a bydd yr ysgolion a'r colegau yn cychwyn tymor astudio. Daeth canlyniadau arholiadau allanol yr ysgolion, amser canmol a llongyfarch ein pobl ifanc am eu gwaith caled a'u llwyddiannau a dymuno'n dda i bob un wrth iddynt ailafael yn eu diddordebau a'u dyfodol. Dymunwn bob hapusrwydd i'r rhai bach dwy a thair oed fydd yn cychwyn yn y Cylch Meithrin a dosbarth Meithrin yr ysgol. Bydd y disgyblion sydd wedi bod yn yr ysgol yn camu ymlaen i'r dosbarth nesaf a'r rhai hynaf yn cychwyn yn yr Ysgol Uwchradd a'r colegau a'r prifysgolion. Mwynhewch a gwnewch eich gorau. Bydd rhai yn cychwyn gyrfa mewn swydd. Pob hwyl i chi.

Cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol Bu grŵp o ddawnsyr Ysgol Ddawns Anti Karen, Caernarfon, yn cystadlu ar y llwyfan a chael yr ail wobwr yn eu cystadleuaeth. Roedd Ellie, merch hynaf Mathew a Nia Gosset, yn aelod o'r grŵp 'Breuddwyd Rhyfeddol Alys.

Hefyd bu Rachel o Lanrug a Huw Emrys, Gwastadfaes, yn cystadlu yn y gystadleuaeth Deuawd Offerynnol Agored a daethant i'r trydydd safle. Llongyfarchiadau ar eich llwyddiant.

Sioe Amaethyddol Cymru Bu Gerallt, Kerry a'r hogia, Pant Gwyn, yn arddangos eu defaid Valais trwyn du, yn y sioe. Daethant i'r trydydd safle mewn dwy gystadleuaeth ac yn chweched mewn un arall. Da iawn i'r defaid a llongyfarchiadau i deulu Pant Gwyn.

Priodas Dydd Sadwrn, y trydydd o Awst, yn Llansannan priodwyd Dafydd Parry, 8 Stad Pant y Waun, â Teleri Lloyd o Lansannan. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da ichi yn eich cartref ym Methel.

Pen-blwydd Priodas Neges gan Ffion a Gwennan i longyfarch mam a dad ar achlysur cyrraedd pen-blwydd eu Priodas Berl ar y pymthegfed dydd o fis Gorffennaf. Gobeithio yn fawr eu bod wedi cael amser da yn dathlu'r achlysur yn yr Eidal. Dymunwn ninnau eich llongyfarch Ian a Lesley ar yr achlysur hapus hwn.

Baban bach newydd Llongyfarchiadau i Charline ac Osian, Llys y Waun, ar enedigaeth mab bach, Bedwyr Alan. Brawd i Rhodri a Lea Mai. Mae nain Jacqueline, Stad Tŷ Hen, wedi gwirioni cael un bach arall i'w warchod a'i wyllo.

Dathlu Pen-blwydd Yn ystod mis Awst bu Doris Roberts yn dathlu cyrraedd ei phen-blwydd yn 92 mlwydd oed a bu Mrs Annie Thomas yn dathlu cyrraedd ei phen-blwydd hithau yn 93 mlwydd oed. Rydym yn llongyfarch y ddwy ohonoch yn fawr.

Mwynhau Dawnsio Mae yna enethod bach o'r pentref ac â chysylltiad â'r pentref yn mwynhau mynd yn wythnosol i ymarfer eu sgiliau dawnsio yn Ysgol Ddawns Anti Karen yng Nghaernarfon. Brynhawn Sul, Gorffennaf 14, roedd Theatr Seilo, Caernarfon, yn llawn oherwydd roedd eu Sioe Ddawns yn cael ei chynnal yno a'r rhieni a pherthnasau wedi dod i fwynhau a chefnogi y dawnsiwr. Diolch i Anti Karen a'r rhai sydd yn ei chynorthwyo yn yr ymarferion a'r sioe.

Merched y Wawr Nos Iau, Gorffennaf 18, cawsom groeso cynnes iawn ym Mhant Du, Penygroes pryd y cawsom sgwrs am y fenter gan Richard. Dywedodd fod Pant Du wedi ennill amrywiol wobrau ac anrhydeddau am eu cynnyrch ac wedi derbyn gwobr am ofalu am yr amgylchedd lleol gan 'Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig'. Daeth y prydau bwyd a daeth distawrwydd i'r ystafell fwyta, pob un ohonom yn wirioneddol fwynhau pob tamaid o'r wledd oedd ar ein plât ac wedyn y trydydd cwr!! Diolchwyd i'r cogydd a'r merched oedd yn gweini arnom gan Anita. Anfonodd gofion cynnes at yr aelodau oedd yn methu bod gyda ni. Cydymdeimlodd yn ddwys â Gill a'r teulu yn eu colled drist. Diolchodd Sylvia i'r pwyllgor drefnodd weithgareddau y flwyddyn a fu a dymunodd yn dda i bwyllgor y flwyddyn sydd i ddod.

Bydd y tymor newydd yn dechrau nos Iau, Medi 26, am 7.30 o'r gloch yn Y Ganolfan. Cawn edrych yn ôl ar ddigwyddiadau'r gangen dros y blynnyddoedd gyda phaned a lluniaeth ysgafn. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

Croeso Adref o'r Ysbyty Rydym yn falch o groesawu Gwenda, Trefeddyg, adref o'r ysbyty a chlywed ei bod yn gwella yn araf.

Bu Cadi, Nant, yn derbyn gofal yn Ysbyty Gwynedd.

Bu Mrs Catherine Jones, Bryn Gwenallt, yn derbyn triniaeth i'w llygaid yn Ysbyty Gwynedd.

Yn Ysbyty Abergele y bu Olwen Meredydd, Cartrefle, yn derbyn triniaeth i'w llygaid.

Bu Mareid, Tŷ Awelog, yn cael profion yn Ysbyty Gwynedd.

Mae'n dda cael dweud eu bod oll adref o'r ysbyty erbyn hyn ac yn gwella.

Dymunwn wellhad i Guto Llywelyn, Minffordd, wedi iddo anafu ei law drwy ddamwain yn ei waith. Cafodd driniaeth yn yr ysbyty. Anfonwn ein Cofion at y rhai yn y pentref sydd ddim yn dda ac yn derbyn gofal y meddygon a'r nyrsys.

Dathlu Priodas Arian Dymuna teulu Paul a Falmi, Rhosllwyn, eu llongyfarch ar achlysur dathlu eu Priodas Arian. Dymuniadau gorau i'r ddau ohonoch.

Diolchiadau Dymuna Nia, Ilid a theulu y ddiweddar Nance Hughes, Wernas, Croes y Waun, ddiolch am bob caredigrwydd a chydymdeimlad a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth. **Diolch** i'r Parchedigion Marcus Robinson a Harri Parri ac i'r organyddes, Catrin Keller, am eu gwasanaeth urddasol ddydd yr angladd ac i Jenny ac Ann Thompson, Rhosgadfan, am y lluniaeth arbennig. Gwerthfawrogir y rhoddion hael dderbyniwyd tuag at Feddygfa Waunfawr ac Ysbyty Eryri. Diolch arbennig i Iolo a staff Roberts ac Owen, Penygroes am eu gwasanaeth parchus a thrylwyr.

Diolch Hoffai Gill, Euros a Bethan ddiolch o galon am yr holl eiriau a'r gweithredoedd hael a charedig a dderbyniwyd ar ôl colli Eurig. Bu'r gefnogaeth a gawsom gan gyfeillion a chymdogion yn gysur mawr i ni ar adeg mor anodd.

Capel y Waun

Bydd gwasanaeth yng Nghapel y Waun am 10 o'r gloch y bore ar y Suliau canlynol:

Medi

1: y Parch Llwyd Jones

8: Mr John Roberts

15: Parch Anna Jane Evans

22: Parch Gwenda Richards

29: Mr Dafydd Charles Thomas

Hydref

6: Mr John Roberts, Llanfairpwll

13: Parch Hugh Pritchard

20: Mr D. Glyn Williams, Llandudno

27: Gwasanaeth Diolchgwrch

Mae croeso cynnes i aelodau newydd ymuno yn y gwasanaethau.

Cyngor Gwynedd yn talu teyrnged i'r cyn-gynghorydd Eurig Wyn

Mae teyrngedau wedi eu rhoi i'r cyn-gynghorydd Eurig Wyn o Waunfawr a fu farw yn ddiweddar.

Yn gyn-aelod o Gyngor Sir Gwynedd, yn fwy diweddar bu'n cynrychioli ward Waunfawr ar Gyngor Gwynedd nes camu lawr yn 2016.

Dywedodd y Cynghorydd Edgar Wyn Owen, Cadeirydd Cyngor Gwynedd: "Roedd hi'n ffrind i mi gael dilyn Eurig fel cynghorydd Waunfawr ar Gyngor Gwynedd pan benderfynodd o gamu lawr tair blynedd yn ôl.

"Roedd Eurig yn gyfaill annwyl ac yn sicr bydd y gymuned gyfan yn cofio am ei waith diflino fel aelod lleol dros Waunfawr. Fel gwr bonheddig a Chymro i'r carn, rydw i'n gwybod ei fod yn aelod uchel ei barch gan gynghorwyr ar draws y Cyngor a'i fod bob amser am weld y gorau dros Wynedd a Chymru.

"Fel Cyngor, anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i'w deulu."

Meddai Arweinydd Cyngor Gwynedd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn: "Roedd Eurig yn gymeriad hawddgar a hoffus ac yn wleidydd praff a roddodd oes o wasanaeth i Gymru a'r Gymraeg. Bu'n ffrind cyd-wasanaethu ag ef ar Gyngor Gwynedd a thristwch yw ei golli."



~ w w w . e c o r w y d d f a . c o . u k ~

Parhad WAUNFAWR

Teyrnged i Dad

Mae'r gair addfwyn wedi cael ei ddefnyddio'n amal i ddisgrifio Dad dros y dyddia dwythma ma, ac mi fedra i a Bethan fel ei blant o gadarnhau nad oedd deud y drefn a dwrdio yn rwbath oedd yn dod yn naturiol i Dad. Do, mi gafwyd amball i achlysur pan driodd o weiddi'n awdurdodol ar y ddau ohona ni pan oedda ni'n blant bach, mewn ymgais i gadw trefn arnon ni (odd mam i ffwr' ma'n siwr!) a ninna'n stopio'n stond gan sylly arno fo mewn sioc... cyn sylwi ar 'i sgwydda fo'n codi i fyny ag i lawr, a'i fod o wedi gorfod troi rownd i guddio'r ffaith 'i fod o'n chwerthin.. a NI'N dau wedyn yn dechra chwerthin, a'r TRI ohona ni wedyn yn rowlio chwerthin hefo'n gilydd. Na, doedd o ddim y tad mwyaf awdurdodol, a diolch byth am hynny...!

Roedd na bob amsar ddigon o hwyl i'w gael efo Dad. Mi ddudodd Bethan wrtha i stori wsnos dwytha' yn cofio bod ar lan y mor efo fo yn Aberystwyth tra roedd mam mewn cynhadledd Merched y Wawr, a Bethan a finna'n chwara'n wirion ac yn dipyn o 'distraction' iddo fo, wrth iddo fo drio ymlacio ar y traeth. Ond nid gweiddi'n flin wnaeth o, ond deud "Pwy yw'r crancod bach hyn sy'n damshgel ar fy mhapur newydd i?!" a ni'n dau'n chwerthin nes bod ni'n wan ar y gair newydd, diarth, doniol, hyfryd yma... 'damshgel'. Er 'i fod o wedi gadael Sir Benfro ers blynyddoedd... roedd y dafodiaith goeth honno yn dal efo fo, ac roedd o'n trysori ac yn falch iawn o'r geiria a'r ymadroddion yma. "Dere di bach" pan oddan ni di brifo, "tishe wab?!" neu "ti moyn cleren?!" pan odda ni'n cheeky... gwingil, shimpil, wilibowan, browlan, bwlffacan a whilmentan. Ac yn ddiweddar, pan dreuliodd o amsar yn yr intensive care ym Mangor, dyma fo'n deud "Mae dy fam yn 'baldorddi' on dyw 'i?". Siarad gormod ydi hynny gyda llaw.

Oedd, roedd o'n addfwyn, ond dwi'n siwr y bydd 'i ffrindia' gosa' yn cytuno fod y tynnu coes parhaus yn gallu bod yn ddiдостur... mi ges i 'ngalw'n Mingi gynno fo am flynyddoedd ar ol i mi unwaith drio deud "Dwi'n mynd i" tra'n brwsho nannadd a deud "Dwi'n Mingi". Roedd o'n mwynhau tynnu coes, ond roedd o'n mwynhau hefyd ac yn dda iawn am fod ar y 'receiving end'... Er enghraifft, pan oedd Tom a Iona yn byw drws nesa i ni – cyn i Elfryn ag Ann symud i Goed Gwydryn, roedd Dad wedi trio creu lawnt o flaen Y Frenni, ac wedi gweithio'n galad iawn arni, a'i chael hi i edrych yn reit dda chwara teg. A be nath Tom oedd mynd allan liw nos efo llond pwcad o bridd a'i osod o mewn pentwr bach taclus reit ynghanol y lawnt newydd, a Tom mashwr yn chwerthin yn braf dros 'i banad a'i dost yn bora, yn meddwl am ymateb Dad i'w weithred ddieffig. "Ma na blydi wahadden da ni!" medda dad wrtho fo yn nes mlaen, a Tom yn methu dalld be oedd gwahadden. Twrch daear oedd o iddo fo wrth gwrs.

Fedra i ddim sefyll yma heddiw heb son am Waunfawr, a pha mor bwysig oedd y pentra ma iddo fo. Dwi a Bethan MOR ddiolchgar i Mam a Dad am ddod yma i ymgartrefu nol ynghanol y saithdega' – alla ni ddim a bod wedi CAEL gwell magwraeth, yn dringo'r cloddia a'r coed, a chael dwn i'm faint o socsans yn yr afon ar hyd y ffor'.

Roedd o'n CARU'R lle - a'i bobol - wrth gwrs. Ac roedd mynd o gwmpas am dro ar hyd y llwybra, a chael cyfarfod hwn a'r llall ar hyd y ffordd yn un o'i bleserau mwya' mewn bywyd. Roedd o'n dalld yn IAWN mai pobol sy'n creu cymuned, a bod cymuned iach yn gymuned lle mae pobol yn cymryd yr amsar i siarad efo'i gilydd, i rannu eu profiada, ac i edrach allan am y naill a'r llall.

Ac roedd bod yn weithgar yn dy gymuned yn rinwedd andros o bwysig iddo fo. Roedd o'n rhan o'r tim egniol o bobol fu'n gweithio yn galed i sicrhau canolfan i'r pentra – lle bysa boreua coffi, gwahanol bwyllgora a chymdeithasa, a steddfoda wrth gwrs, yn dwad a phobol at ei gilydd; y glud i gymuned dda.

Ac mi wnaeth dad ffrindia GO IAWN yn y pentra ma ar hyd y blynyddoedd.

Diolch Dad am ddangos i ni mor BWYSIG ydio i fod yn driw i dy ffrindia.

Diolch Rob ac Alma am yr holl flynyddoedd o hwyl a theithio Ewrop naethoch chi hefo mam a dad – yn y campyr vans - neu'r 'Frenni Fach' fel odd mam a dad yn licio galw'u un nhw.

Roedd gweld dad yn ffarwelio tra'n cerdded allan o'r drws ar nos Fawrth am beint efo'i fets yn rhan annatod o'n plentyndod ni... mae arna' i ofn! Roedd o wrth ei fodd yn mynd yno i gymdeithasu efo'i ffrindia – llawer iawn ohonoch chi'n ista yma heddiw. Diolch i CHI i gyd am yr holl nosweithia hwyliog y gwnaeth Dad eu mwynhau yno ar hyd y blynyddoedd.

Dwi di bod yn trio meddwl am y gair Cymraeg i 'motivator'. Ysgogydd falla? Achos dyna OEDD Dad. Munud sa fo'n cal syniad yn i ben, roedd o'n i ddilyn o – fel ci efo asgwrn yn 'i geg - ac roedd y gallu gynno fo i dynnu tim o unigolion at ei gilydd fysa'n llwyddo i gyflawni pob math o brosiecta'.

Pan fuodd o'n gweithio fel trefnydd y Blaid yng Nghaernarfon er enghraifft, mi gafodd o ac eraill y syniad cyn Eisteddfod Caernarfon 1979 y bysa trefnu gigs i godi pres at y Blaid, fel rhyw fath o ffrinj i'r Brifwyl, yn syniad go dda. A dyna arweiniodd at Twrw Tanllyd yn y caea' uwchben fferm Parcya yn Griffiths Crossing.

Ma gin i go byw iawn ohono fo yn mynd a fi yno rhyw noson – dwi'n meddwl mai Meic Stevens oedd yn chwara' – a finna yn hogyn bach saith oed ynghanol marquee enfawr yn llawn o bobol oedd, wel, sut rown ni hi? - yn gwbot sut oedd cal amser da. O hynny dechreuodd Cymdeithas yr Iaith drefnu gigs ym mhob steddfod, ac erbyn heddiw, diolch byth, mae cerddoriaeth gyfoes Gymraeg yn rhan annatod o bob Prifwyl.

Ac wrth gwrs, roedd Dad yn ymgyrchydd gwleidyddol heb ei ail. Mi ddysgodd o'r grefft gan ddau o'i arwyr, a chwari Sir Benfro – Waldo a DJ – rwbath yr oedd o'n hynod o falch ohono fo. Roedd o'n hoff iawn o adrodd stori amdano fo'n canfasio hefo DJ ar gyfer ymgyrch Gwynfor yng Nghaerfyrddin yn 1966, a'r ddau ohonyn nhw'n troi fyny mewn parc gwylia llawn dop o garafana' twristiaid o Loegar. A phan dynnodd Dad sylw DJ at y ffaith na fysa gan yr un ohonyn nhw bleidlais yng Nghaerfyrddin, ei ateb parod oedd bod "angen iddyn nhw ddeall, Eurig".

Yng Nghaerdydd wedyn, bu Dad wrthi yn canfasio i drio perswadio trigolion Canton i bleidleisio i Blaid Cymru... tipyn o sialens, yn enwedig bryd hynny, ond cofiwch chi, roedd o'n rhan o 'double act' effeithiol iawn hefo fy Anti Lis – chwaer Mam - roedd hi yn ei nabod o cyn i Mam ddod i'w nabod o – ac roedd Lis yn hel atgofion efo ni y diwrnod o'r blaen, yn ei gofio yn cyrraedd i ganfasio mewn dillad bler, jumpers gwlan lot rhy fawr iddo fo, a crew cut. Yn amlwg doedd dylanwad Mam ddim arno fo eto! Ond yn ol Lis roedd ei foneddigrwydd ar y stepan drws yn disgleirio drwy'r blerwch.

Ac roedd BRAWD Mam, Gareth, yn ffrind da i Dad. Gareth wrth gwrs, fel 'fynta, yn ymgyrchydd blaenllaw iawn. Roedd y ddau yn rhannu'r un egwyddorion Sosialaidd, a bu Dad yn cadw cwmni i Gareth ar sawl achlysur yng nghynhadledda'r Blaid Gomiwnyddol, a chael amser gwych yno yn trafod gwleidyddiaeth hefo Gareth a'i gyd-gynhadleddwyr. Ac

roedd hyn yn dangos gallu Dad i ymwneud a, a dod ymlaen yn iawn hefo pobol o wahanol bleidia' a thuedd wleidyddol.

"We miss you" meddai Jonathan Evans, un o'r aelodau Toriaidd allan yn Senedd Ewrop pan welodd o Dad ychydig flynyddoedd ar ol i'w gyfnod yno ddod i ben. Ac mae hynny yn siarad cyfrola'.

A fedrwn ni ddim siarad am Dad wrth gwrs heb siarad am Mam; ei gymar oes.

Bui'r ddau gyfarfod nol ar gychwyn y saithdega' pan oedd Mam yn dysgu yn ardal Pontypridd, a Dad yn gweithio i'r BBC yng Nghaerdydd.

Un o'n hoff straeon i am y cyfnod yma ydi'r stori am y ddau ohonyn nhw yn mynd am ddet i fwyty o'r enw y Fontana de Trevi yng Nghaerdydd. Oedd o Y lle i fynd adag hynny yn ol pob tebyg, a'r ffaith bod na fflowntan YN y ty byta – yn dipyn o beth.

Beth bynnag, roedd menus y Fontana de Trevi yn hen betha anfarth ac anhylaw, a chanhwylla ar bob bwrdd. Ac mi aeth menu rhyw foi ar fwrdd cyfagos ar dan, a dyma fo'n gorfod rhedag trwy'r ty byta a'r menu'n fflamio, a'i daflu ar ei ben i mewn i'r 'fontana'.

Fel y medwrch chi ddychmygu, mi chwalwyd ffug barchusrwydd y lle byta hwn am y noson gyfa; ac agwedd 'mortified' y dyn yma, a chomedi'r sefylla yn ormod i Mam a Dad.

Mashwr odd o fel rwbath allan o Fawly Towers yndoedd?

Mi fedrwc chi ddychmygu'r chwerthin.

A phan ma Mam yn chwerthin, credwch chi fi, ma hi'n CRIO chwerthin. A dyna wnaeth y ddau drwy weddiill y pryd - trio byta eu bwyd, ond yn methu llyncu yn iawn, am eu bod nhw'n chwerthin gymaint.

Achos roedd Mam a Dad yn rhannu'r un hiwmor, yn cael gigs am yr un petha; ac yn mwynhau tynnu coes ei gilydd, rwbath sy'n hollbwysig wrth gwrs os da chi am sicrhau blynyddoedd hir o briodas hapus. Ac mi all Cat fy ngwraig dystio i hynny!

Ac wrth gwrs, roedd Dad yn cael y pleser mwya o'r hyn yr oedd Bethan a fi yn ei wneud yn broffesiynol, neu betha 'roeddian ni'n ymddiddori ynddyn nhw. Roedd Dad yn holi drwy'r amser am ba raglen deledu o'n i wedi bod yn gweithio arni, neu ba gig oedd gen i ar y gweill, neu sut hwyl oedd Lerpwl wedi ei chael arni yn eu gem ddiweddara. Ac mi golla i'r sgysia hynny am dim y Swans – tim Dad – a minna yn cyfadda rwan mod i wedi tyfu i fyny yn gefnogwr tawel i'r tim hwnnw; 'by proxy', fel petae.

Wel, pwy fysa ddim ar ol derbyn llofnodion rhai o gewri tim enwog yr wythdega – Latchford, James, Curtis, Nieldswecki, - gan Dad ar ol iddo fynd i'w gweld nhw'n chwara yn erbyn Everton yn Goodison yn ystod mis Rhagfyr 1981.

Roedd o wedi taro i mewn i'r tim yn y dafarn ar ol y gem – fel odd hi bryd hynny. Ac oedd o'n licio deud iddo fo bi-pi drws nesa i Toshack yn y toileda, a chael sgwrs reit dda efo fo fyd. Ac er mai colli 3-1 wnaethon nhw, doeddnam otsh. Mi roedd na hogyn bach yn browd iawn y noson honno o'r cynnwys newydd yn ei Lyfr Llofnodion Mistar Urdd. Presant Dolig cynnar I mi y flwyddyn honno.

A doedd o ddim jysd yn dad meddylgar, ond roedd o hefyd yn daid annwyl a hynod o ofalus; i Anni, Math, Beca a Macsen – ac mi fydd 'i waddol o yn parhau i fyw trwyddyn nhw, a thrwyddom ni. Mi wnaiff Catrin a minna, a Bethan ac Ian wneud yn siwr na wnawn nhw byth anghofio am "Taid Weun".

Gwleidydd brwd, areithiwr huawdl... dyma rai o'r geiria sydd wedi cael eu defnyddio i ddisgrifio Dad... ond i ni fel ei deulu agos, ei hiwmor chwareus, ei hwyl, ei sgwrs a'i garedigrwydd fyddwn ni'n eu colli fwya'.

Bod yn driw i'th deulu a'th ffrindia, bod yn weithgar yn dy gymuned, bod yn barod i wrando, trin PAWB yr un fath. Bod yn oddefgar, peidio dal dig, bod yna i fynd am beint efo ffrind pan fo angen...

...dyma rai o'r rhinweddau' sy'n fy ngwneud i A Bethan yn falch iawn o gael dweud ein bod ni'n blant iddo fo. Rydan ni'n ddiolchgar dros ben iddo fo, a Mam, am ddysgu'r egwyddorion yma i ni...

...ac yn gobeithio ein bod NI'N llwyddo i arfer a rhannu'r un egwyddorion yn ein bywyda ninna hefyd.

I gloi'r deyrnged, mi hoffwn i ddod yn ol at rywbeth wnaeth ddod a gymaint o bleser i Dad ar hyd ei oes, sef barddoniaeth.

Cerdd gan Harri Webb, "When Gwynfor went in for Carmarthen". Roedd Dad yn hoff iawn o adrodd hon, fel y gall nifer ohona chi yma heddiw dystio. Diolch i Dai Williams am ddod o hyd i'r faled i ni, ac roedd Dai yn cofio Dad yn ei hadrodd wrth Gynhadledd y Blaid yn Llangynwyd chwech wythnos ar ol y fuddugoliaeth. Ond wrth y bwrdd bwyd ar ol gwydraid neu ddau o win y bydda I'N cofio Dad yn ei hadrodd.

Yn ail fydd cerdd gan un o feirdd mwya'r genedl, Waldo. Roedd Cofio yn un arall o'r nifer o gerddi yr oedd Dad yn gwybod ar ei go; er y bu achlysur chwedlonol yn Weun pan fu iddo fo ANGHOFIO Cofio ar lwyfan yr eisteddfod bentre un flwyddyn.

Cerdd oedd yn agos iawn at galon Dad, gan y bardd yr oedda ni'n pedwar, yn deulu bach Y Frenni, yn hoff iawn ohono, sef T.H.Parry Williams. Roedd Dad wastad yn rhyfeddu at gynildeb T.H. a'i ddefnydd clyfar o eiria – pob un yn haeddu ei le.

Ac wrth gwrs, roedd testun nifer fawr o'i gerddi yn ymwneud a'r ardal hyfryd yma y mae nifer fawr ohona ni yma heddiw mor lwcus o gael byw ynddi, a'r ardal y bu i Dad syrthio mewn cariad a hi.

Llyn y Gadair....

Ni wél y teithiwr talog mono bron
Wrth edrych dros ei fasddwr ar y wlad.
Mae mwy o harddwch yn mynyddoedd hon
Nag mewn rhyw ddarn o lyn, heb ddim ond bad
Pysgotwr unig, sydd yn chwipio'r dŵr
A rhywfo plwc yn awr ac yn y man,
Fel adyn ar gyfeilorn, neu fel gwr
Ar ddyfroedd hunlle'n methu cyrraedd glan.
Ond mae rhyw ddewin â dieffig hud
Yn gwneuthur gweld ei wyneb i mi'n nef,
Er nad oes dim gogoniant yn ei bryd,
Na godidowgrwydd ar ei lannau ef, --
Dim byd ond mawnog a'i boncyffion brau,
Dau glogwyn, a dwy chwarel wedi cau.

ECO'r Wyddfa

O'r Cyngorau

Cyngor Cymuned
Llanrug

Seddi gwag ar y Cyngor

Eglurodd y Cadeirydd gefndir y broses o gyfethol aelod ar y Cyngor Cymuned ac am nad oedd cais wedi ei wneud am etholiad, roedd yn disgyn i'r cyngor gyfethol. Croeshawyd Dr Clare Eno, ymgeisydd am sedd ac eglurwyd iddi fod dau gais arall wedi dod i law ac ni fyddai'n bosib ethol neb ar hyn o bryd oherwydd byddai rhaid i'r ddau ymgeisydd arall gael yr un cyfle i ddod ger bron y cyngor. Ar ôl gweld y ddau ymgeisydd arall, bydd y cyngor yn cyfethol.

Cyflwynodd Dr Eno ei hun a rhoddodd grynodedb o'i chefnidir a'i phrofiad ac ar ddiwedd y cyflwyniad cafodd yr aelodau gyfle i'w holi a cafodd hithau gyfle i holi'r aelodau

Diolchodd y Cadeirydd iddi am ddangos diddordeb mewn eistedd ar y cyngor ac estynnwyd cynnig iddi aros hyd ddiwedd y cyfarfod os y dymunai ond oherwydd gofynion eraill nid oedd yn bosib iddi aros a gadawodd y cyfarfod.

Cais oddi tan Ddeddf Trwyddedau 2003 – Y Fricsan, Cwm y Glo

Adroddwyd fod cais wedi dod i law am drwydded gwerthu alcohol gyda prydau. Nodwyd fod y bwriad i greu bwyty yn yr adeilad yn ogystal a byddai hyn yn adnodd ychwanegol i'r pentref. Yn dilyn trafodaeth ar y cais, ac ystyried yr angen yn Nghwm y Glo am wasanaeth o'r math yma, penderfynwyd cefnogi'r cais.

Cais i leihau cyflymder gyrru ar y ffoddi mewn i Lanrug o Gaernarfon

Rhoddwyd adroddiad ar gyfarfod gyda swyddog o Gyngor Gwynedd a gynhaliwyd am 9:00 y.b ar 16 o Orffennaf 2019 ger Erw Hywel i geisio rhoi perswâd ar Gyngor Gwynedd i ostwng y cyflymder o 40 mya i 30 mya hyd at yr arwydd 40 presennol yn dilyn nifer o gwynion gan drigolion lleol am geir yn gyrru'n gyflym a bod y cyflymder presennol o 40mya yn ormod.

Roedd y swyddog o'r farn nad oedd hi'n bosib gostwng y cyflymder presennol i 30 oherwydd fod y cyflymder presennol yn cydymffurfio a'r rheolau cyfredol. Fodd bynnag cytunwyd y byddai'n ystyried y canlynol:

- Gwella'r arwyddion 40 m.y.a. presennol. Gosod rhai gyda chefnidir melyn ac ychwanegu symbol camerâu ar yr arwyddion 'repeaters'
- Gosod marciau Ffyrdd lliw coch a 'rumble strips' gyda'r arwyddion 40 m.y.a.
- Edrych ar y posibilïadau o ail leoli'r arwyddion er mwyn gwella y gwelededd

- Trefnu i dorri'r ordyfiant o fewn ffin y briffordd
- Cysylltu â'r Heddlu (Go Safe) i ofyn iddynt ystyried camau gorfodaeth yn y rhan yma o'r pentref

Pwyllgor hamdden a mwynderau

Adroddwyd fod yr holiaduron a gwblhawyd gan blant yr Ysgol Gynradd ac Uwchradd Llanrug wedi eu cwblhau a'i dychwelyd ac ymysg yr hyn roedd y plant yn gofyn amdano oedd 'campfa tu allan'. Penderfynwyd symud ymlaen a ceisio grantiau i wneud hyn a'i leoli yng Ngwm y Glo.

- Plannu cennin pedr eleni yng Ngwm y Glo a Cae chwarae Nant y Glyn;
 - Trefnu i gyfarfod a Mrs Meinir Griffiths ar gyfer trefniadau ar gyfer y goeden Nadolig.
 - Trefnu i gael un contractwr os yn bosib fyddai yn gallu danfon, gosod a goleuo'r coed Nadolig yn hytrach nac ein bod yn gorfod cydgordio nifer o bobl;
 - Archebu goliau ar gyfer cae chwarae Cwm y Glo oherwydd fod y rhai presennol yn berygl;
 - Prynu siglen babi yn lle yr un a faluriwyd ar gae Nant y Glyn;
 - Yn dilyn yr ymateb i holiaduron Cwm y Glo cyn i'r cyngor cymuned gymryd y cae chwarae drosodd nodwyd mai dymuniad pobl Cwm y Glo oedd i gael byrddau picnic ar y cae a creu llefydd parcio.
- Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a symud ymlaen a phenderfyniadau'n pwyllgor; ond archebu a trefnu i'r goliau gael eu gosod yn syth fel gellir eu defnyddio dros wyliau'r Haf.

Seindorf Arian Llanrug

Adroddwyd gan Mr Graham Williams, cadeirydd y Band, sefyllfa gyfredol y band a bod y band yn colli aelodau i fandiau cyfagos. Roedd newydd gymryd drosodd fel Cadeirydd ac yn awyddus i gydweithio gyda mudiadau fel y cyngor cymuned er lles y gymuned. Nododd byddai yn fodlon iawn o dderbyn unthw gymorth gan y Cyngor Cymuned. Nodwyd nad oedd y band wedi gwneud cais llynedd am grant gan y cyngor cymuned.

Cafodd yr aelodau gyfle i holi ac i roi nifer o awgrymiadau iddo. Cytunwyd yn ogystal byddai linc i ffurflen gais am grant yn cael ei anfon iddo.

Cais Cynllunio

'Doedd dim gwrthwynebiad i gais i greu mynedfa gerbydol a rhodfa newydd yn Pen Rallt, Cwm y Glo

RHOSTIO MOCHYN
Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

AR GYFER POB ACHLYSUR **DEWCS MAE O'N FLASUS**

PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!
Cysylltwch a
John Brynafon LLANRUG
www.ydyncig.co.uk

675190 • 673188
Symudol- 07798 718188

SAMARIAID

Mae

Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

HUW OWEN

PLASTRWR ADEILADWR LLEOL

22 BLWYDDYN O BROFIAD

Ffôn- 01286 677668
Symudol- 07940023159

Gladwyn Station Rd.
LLANRUG, Caernarfon
LL55 4AG

Ebost- lisa.huw@btinternet.com

WAVELL'S
Bryn Ac Angela Williams

London House LLANRUG

PEN CIGYDDION Y FRO

YR WYN LLEOL MWYAF BLASUS
SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
MYNWCH Y GORAU DEWCH ATOM NI!!

(01286) 673574



O'r Cyngorau Cyngor Llanddeiniolen

Cofnodion Cyfarfod 7fed Fai 2019

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir

Materion o'r cofnodion

CCG – Derbyniwyd llythyr yn gofyn am awgrymiadau ar enwau ar y tai oedd yn cael ei adeiladu ger Maes Gwylfa. Roedd angen 2 gwahanol enw, gan fod y tai gyda gwahanol mynediadau iddynt o'r lon. Awgrymwyd, "Cysgod y Bigil" "Cornel y Clwt" a "Llwyn y Clwt" "Llwyn y Bont".

Eisteddfodau'r Urdd – Llongyfarchiadau Mawr i'r aelodau a fu'n llwyddianus fel rhan o ysgol, coleg, adran neu yn unigolion. Yn ychwanegol i'r enillwyr a fu ar y llwyfan, daeth unigolion o'r ardal i'r brig ar gystadleuthau'r gadair, goron, barddoni, celf a chrefft a technoleg. LLongyfarchiadau Mawr i chi i gyd.

Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan blant a staff Ysgol Gwaun Gynfi a Dawnsyr Kelly am y nawdd ariannol tuag at gostau teithio i Gaerdydd.

Gordyfiant a Ysgubo'r ffordd yn Brynrefail – Derbyniwyd llythyr yn datgan fod Uned Waith Bwrdeistrefol am roi y gwaith ar eu rhaglen waith, a bod arolygwyr ffyrdd am edrych ar y gordyfiant a gweithredu fel bo angen.

Biniau Halen – Derbyniwyd fod y gwaith adnewyddu y biniau am gael eu cyflawni yn ystod yr haf.

Llinellau Melyn Ysgol Penisarwaun – Bydd y llinellau melon yma yn cael eu peintio ac I lawr ar y rhaglen waith yn ystod yr haf.

Llwybr Carreg y Garth – Mae'r Cyngor Sir am ymweld a'r llwybr ac am ymateb cyn gynted a bod modd.

Lon Ty'n Llidiart hyd at Tai Allt - Mae'r lôn yma ar rwydwaith ffordd cyhoeddus er bod ei harwyneb wedi ei gwneud o gerrig a phridd. O ganlyniad mae gan unrhyw gerbyd sydd gyda threth a MOT cyfredol yr hawl i drafailio ar ei hyd. Gan fod rheolau ffyrdd priffordd yn berthnasol iddi, os yw cerbydau yn cael eu defnyddio neu'r cerddwyr yn gwneud umrhyw beth yn groes i'r rheolau hyn, yna gallant gael eu herlid, ac yr heddlu sydd efo pwerau gorfodaeth mewn achosion o'r fath.

Gohebiaeth a materion eraill

Diffriblydd Brynrefail - Mae Brynrefail dal yn ceisio cael cyfraniadau ariannol tuag at gael diffriblydd yno.

Grwp Cynefin – Derbyniwyd cydnabyddiaeth o'n llythyr ynglyn a cyfraniad i'r gymuned gan y cwmni am adeiladu tai yn Bethel.

Cynllunio

Ceisiadau a dderbyniwyd yn ystod y mis:

Bakhita, Bethel – Codi 2 dy deulawr (gan gynnwys 1 ty fforddiadwy) parcio a gerddi

Ty Cefn, Waun Pentir – Codi ty deulawr Newydd a mannau parcio.

Ivy Cottage, Bethel – Estyniad Unllawr.

Bwthyn Gwyn – Estyniad a newidiadau.

Tan y Ffordd, Gallt y Foel – Codi sied amaethyddol ar gyfer storio peiriannau a phorthiant.

2 Rhos Penrhyn, Rhiwlas – Dymchwel yr estyniad presenol a chodi estyniad deulawr yn ei le.

1 Dinorwig Cottage, Dinorwig – Newid defydd llecyn o dir ar gyfer llecynau parcio a gardd.

O Gwmpas y Bwrdd

Cae'r Foel, Dinorwig – Cysylltu a Cyngor Gwynedd eto i egluro ein pryderon ynglyn a'r ty a'r tir sy'n llawn annibendod.

LLwybrau – Llwybr sydd yn rhan o 93. Mae angen tystiolaeth fod y llwybr yn cae ei ddefnyddio.

Llwybr Rhos Wian at tu ôl i'r eglwys. Mae angen ei ail agor. Mae tystiolaeth yn bodoli ei fod yn cael ei ddefnyddio. Mae yna arwydd o giat mochyn un pen, ond nid o pen arall.

Llwybr o Waun i Cegin Arthur – Mae'r tir yma wedi ei gymeryd drosodd gan Till Hill Forest Company. Does dim posib defnyddio y llwybr trwodd i Cegin Arthur. Maent yn torri'r coed yno ar draws y llwybr, ac yn plannu coed Newydd. Roedd criw o haneswyr yr ardal yn torri o gwmpas Cegin Arthur, ac yn cerdded plant ysgol i weld y ffynnon a'r hanes hynafol o'i chwmpas. Mae angen y llwybr yn ôl tuag at y ty, ac efallai y buasai Cymdeithas Ffynhonau Cymru yn gallu helpu hefyd.

Rhiwlas – Anodd gweld, o'r tyfiant ar lon bach Awyr. Cysylltu a'r Cyngor Sir i dorri cyn bod damwain.

Brynrefail – Falch fod CCG wedi rhoi fainc, ac wedi symud y cerrig oedd yn rhwystredig ger Trem Eilian.

ARDDANGOSFA O WAITH ARLUNWYR LLEOL : CHWAREL DINORWIG

Mae'r arddangosfa nawr ar agor yn Menter Fachwen, 52 Stryd Fawr, Llanberis a gwerth ei weld, ac ar agor trwy gweddill y flwyddyn yn ystod oriau agor y siop, sef o 10-4 Dydd Mawrth – Ddydd Gwener.

Ffoniwch 01286 870681 am rhagor o fanylion.



Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The ROYAL VICTORIA HOTEL
Snowdonia

Diolch Dymuna Anwen, Alwyn, Bethan a Graham, Ianto a Bethan Gres ddatgan eu gwerthfawrogiad am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd tuag atynt ar golli ei thad a thaid annwyl, Iorwerth Williams, Cartref-Melys, Llanrug.

Hoffwn diolch yn fawri i Eirian, Judith, Eleri a'r Merched ifanc Llanrug a ddaeth i helpu fy nhad.

Diolch hefyd i Meinir a Rhys, (Dylan Griffith Llanrug) am eu trefniadau trylwyr ac i'r Parchedig R.E.Hughes Nefyn am y gwasanaeth ac i'r organyddes Einir Wyn Williams.

Hoffwn diolch hefyd am y rhoddion hael er cof am Iorwerth tuag at Meddygfa Waenfawr ac Ambiwllans Awyr Cymru.

Gwellhad Dymunwn adferiad iechyd llwyr i Mrs Tegwen Owen, Bod Elwy a John Williams, Minafon, a gafodd driniaethau yn Ysbyty Gwynedd yn ystod y ddau fis diwethaf. Da eich gweld gartref ac yn mentro allan eisoes.

Plaid Cymru Enillwyr y Clwb Cant:

Gorffennaf 1 - Enid Williams, 2 - Valmai Owen

Awst 1 - Megan Roberts, 2 - Sheila Williams

Noson yng nghwmni Dafydd Iwan.

'Fy nhaid - Ffred'

Y Sefydliad Coffa

Nos Fercher, Medi'r 18fed am 7.30

CROESO CYNNES IAWN I BAWB

Eglwys St. Mihangel yn yr Institiwt

Medi 15ed: Cymun Sanctaidd.

Hydref 6ed: Diolchgarwch y Cynhaeaf.

Croesawir rhoddion o ffrwythau a llysiau ar gyfer eu rhannu.

Bydd y barbeciw a ohirwyd, yn awr yn cael ei gynnal ar dir y Neuadd, Eglwys Santes Helen, Penisarwaen, Medi 7ed, rhwng 2 a 4 o'r gloch.

Merched y Wawr Edrychir ymlaen at groesawu pawb i'r Sefydliad Coffa, Llanrug, nos Fawrth, Medi 10fed am 7.30 o'r gloch. Derbyniwyd Tystysgrif gyda chanmoliaeth am Raglen 2018-19 a gellir eich sicrhau bod rhaglen Medi 19 hyd Mehefin 2020 yr un mor amrywiol a difyr. Yr artist, Sian Owen, sy'n arbenigo mewn gwaith llechen fydd ein gwraig wadd. Os oes gennych unrhyw beth o lechen gerfiedig i'w dangos dowch â nhw ar y noson. Estynnir croeso mawr i aelodau newydd a ffrindiau a Dysgwyr.

Clwb Clychau'r Grug Gobeithir gweld pawb yn Hen Ysgol Dinorwig bnawn Gwener, Medi 6ed, am 2.30. Anfonir cofion annwyl atom gan Glenys. Roedd Ann a Dafydd mor falch o'i gweld yng ngwasanaeth bedyddio Cian Harri a Lois Rhodd - plant

bach Eurgain Haf ac Ioan yng Nghapel Tabernacl, Efail Isaf, Pontypridd.

Priodas **Aur**

Llongyfarchiadau mawr i Hefin a Linda Jones, Pant Mwyn, ar ddathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar a hefyd i Susan a Hywel Williams, 5 Pen Cae. Yr un yw'n dymuniad i Dafydd a Linda Pritchard, Afon Rhos, Llongyfarchiadau mawr i chi i gyd.

Priodas Dymunwn bob hapusrwydd i Rhys Parry ar ei briodas â Sioned Mai (Jones) o Gwm y Glo. Llongyfarchiadau mawr i chieich dau. Maent wedi ymgartrefu yn Glanffynnon.

Priodas Dymunwn, yn yr un modd, longyfarch Iwan Griffiths a Rachel, Gwynfa, Ffordd yr Orsaf, ar eu priodas hwythau. Pob bendith.

Damwain! Drwg clywed bod Avril Jones, Stad Minffordd, wedi cael damwain a thorri ei braich - colled heb gael dreifio Avril! Hefyd, Pat Jones, 59 Glanffynnon, wedi torri ei braich tra ar ei gwyliau ym Mharis. Brysiwch wella eich dwy.

Arholiadau Mae'r canlyniadau wedi cyrraedd ac

erbyn hyn mae'r disgyblion wedi penderfynu beth yw eu dyfodol. Llongyfarchiadau mawr i chi i gyd a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Cartrefi **Newydd**

Dymuniadau gorau i'r canlynol yn eu cartrefi newydd yn Llanrug. Mae Gareth ac Alwena Williams bellach yn 'Y Wenallt' ar Ffordd Glanmoelyn ac mae Manon a Cefin, Mabon ac Ena wedi symud i'w hen gartref ar Ffordd Llanberis.

Mae Ann, Irfon, Haf a Ffion Thomas wedi setlo yn dda yn Tre Ceiri, Pen Cae a Martin, Gemma a'r teulu bellach yn Buarthau.

Croeso hefyd i Lowri Pritchard a'i merch fach, Lea, i Gorlan y Rhos gan obeithio y byddwch yn hapus iawn yn Llanrug.

Llongyfarchiadau i

Nanw Llwyd, Y Goedlan, ar ddod yn ail yn yr Unawd Chwythbrennau dan 16 oed yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst.

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â Mrs Enid Williams, 15 Rhos Rug yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer yn Llanberis. Rydym yn meddwl yn annwyl iawn amdanoch.

Capel y Rhos

Oedfaon Medi

1: Parch Marcus W. Robinson - Oedfa a Chymun

8: Dr Huw Tegid Roberts

15: Y Gweinidog

22: Miss Eleri Jones

29: Parch Ddr Elwyn Richards

Llwyddiant Coginio

Yn ystod mis Mehefin bu W. H. Williams, Arfryn, Llanrug yn cystadlu yn Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen - dim ond yr ail waith iddo roi cynnig ar gystadlu yno, a hynny yn yr adran coginio. A daeth llwyddiant ysgubol i'w ran. Allan o dair ar ddeg cystadleuaeth, daeth i'r brig mewn unarddeg ohonynt, ac yn yr adran i ddynion yn unig, enillodd bob un o'r pump cystadleuaeth.

Yn yr adran i ddynion, enillodd ar Deisen Fictoria, Teisen

Lemwn, Siytni, Marmalead a Jam. Yn yr adran agored enillodd ar Gacen Afal, Cacen Riwbob, Cup Cakes, Siytni, Jam a Marmalead. I goroni'r cyfan, dyfarnodd y beirniaid ei gacen afal fel y cynnyrch gorau yn yr Adran Coginio, gan ennill iddo Darian Mabinogion y Sioe i'w dal am flwyddyn, a chwpan i'w gadw am byth. Mae'r darian wedi ei chyflwyno dros y pymtheng mlynedd diwethaf, a dyma'r tro cyntaf yn ei hanes i ferch beidio a'i hennill. Cyntaf arall iddo felly!



POSH PAWS

TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol

PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10
DYDD SUL 8yb-4yp
Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07935324193
ebost- juliaposhpaws@btinternet.com



Ar ben arall i'r lein



Sut aeth y gwyliau? Rhyw ychydig o bysgota neu mwynhau'r glaw sydd wedi bod o gwmpas y lle. Ond cofiwch mae'n hen ddywediad gan 'sgotwrs y fro am y 'Tri llif Awst' ar y trydydd bydd yr eogiad yn dechrau rhedeg go iawn. Fel yna mae wedi bod eleni, ond tydi'r eogiad heb o gwmpas fel ag yr oeddynt flynyddoedd yn ôl. Mae hyn yn broblem fawr yng ngolwg Cyfoeth Naturiol Cymru ac yn ôl pob golw ni y 'sgotwrs sy'n gyfrifol. Dim llygredd carthffosiaeth, coedwigaeth, dulliau amaethyddol – na chi'r sgotws di'r achos. I geisio troi pethau am y goreu fe gyflwynwyd cynnigion i atal pob math o arferiadau 'sgota a hefyd i atal dal eog at yr hen badell 'na. Dwi 'di pregethu digon am yr archwiliad cyhoeddus 'na yn y Drennewydd dros y misoedd diwethaf. Ar ddiwedd Gorffennaf fe ddaeth penderfyniad yr arolygwr i law, sydd bellach wedi ei gadarnhau gan y gweinidog Lesely Griffiths AS. Dim byd i'n syfyrdanu, dim consesiwn i'r pysgotwyr, fe gytunodd yr arolygwr i bob cynnig CNC a felly rhoddodd gweinidog ei stamp ar yr holl beth. Ond mewn difri doedd dim byd arall i ddisgwyl, gan fod yr arolygwr arbenig yma wedi eistedd ar wrandawiad arall o gias Llywodraeth Cymru, a cytuno wnaeth ar ei cynigion. Fel dywedodd un oedd wedi mynychu'r cyfarfodydd 'Mae'r holl beth yn drewi'

Yn anffodus does dim iw wneud bellch on disgwyl I weld be a ddaw yn yris-ddeddfau'r newydd – ond maen't yn barod wedi dweud bydd gorfodaeth lym ar be a ddaw i gyd - felly chwi holl bysgotwyr Cymru gofawch beidio a rhoi y badell ar waith neu disgwyliwch gnoc ar y drws, bydd siwrna sydyn yn eich disgwyl i'r llys barn. Ond mewn gwirionedd sut mae hyn i gyd yn mynd i gael ei blismona, gan fod ail drefnu CNC wedi gwenud yn sicr na yn y misoedd nesaf bydd dim cipar afon ar ôl.

Fel cadarnhad fod y corff rheolaethol yma ddim yn canolbwyntio ar y materion a fuasai'n gwella ein dyfroedd. Heddiw derbynias gylchgrawn Trout & Salmon (20/8), ynddo mae erthgyl yn cyflwyno cyfweiliad gyd Hywel Morgan. Dyma ateb Hywel i'r cwestiwn ar sut i wella pysgodfeydd. 'Buaswn yn datrys y broblem o'r llygredd sy'n lladd afonydd Cymru, mae'n drychinebus fod 110 o achosion o lygredd wedi eu reportio, o'r rhain bu collfarn ar ddau achos yn unig. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn jôc.

Wyddoch chi be, 'rwyn crafu fy mhen ac yn methu a credu beth sy'n mynd ymalen. 'Rydym fel pysgotwyr o'r farn fod rhyw elfen yn ein llywodraeth gyda agenda i atal pob math o ddiddordebau cefn gwlad. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn barod wedi atal saethu ar ei tir drwy'r wlad, bydd yr is- ddeddfau newydd pysgodfeydd yn gweld nifer o glybiau pysgota ar hyd y wlad yn cau eu drysau. Dyma i chi tipyn o dystiolaeth ychwanegol i'r perwyl yma. - Sioe Amaethyddol Cymru, ble mae cefnogaeth gryf wedi bod i bysgota gyda'r cynt Awdurdod Afonydd a wedyn Asiantaeth yr Amgylchedd wedi dangos cefnogaeth gryf i bysgota trwy ei arddangosfeydd. Eleni yn Llanellwedd, stondin Cyfoeth Naturiol Cymru, dim o gwbl am bysgota na physgodfeydd – y canolbwynt oedd Canwio, Beicio a Cherdded. Yn yr Eisteddfod Genedlaethol, Llanrwst, na dim am bysgota chwaith, y canolbwynt oedd Gorlifo a Choedwigaeth. Mi wnai adael i chwi wneud eich meddyliau i fyny be sy'n mynd ymlaen.

Ond er hyn i gyd, ar holl diffyg gwrandao gan yr awdurdodau, er i'r tymor fod yn araf ar y cychwyn mae pethau wedi troi allan yn ardderchog. Mae'r Seiont ar Llyfni yn llawn o wyniadau, rhediadau goreu ar y Seiont ers nifer fawr o flynyddoedd, maes parcio Crawia bron yn llawn gyda'r nos, a'r Finiog yn sgota'n ardderchog. Rhaid

imi fod yn ofalus yn y fan yma drwy beidio enwi rhai o'r sgotwrs medrys neu efallai lwcus, rhag gadael rhywun allan a chael poen clust wedyn. Ond gyda'r eog, mae rhain i weld yn dechrau dod at ei hunain, ac mae'n rhaid enwi Gareth Bryfdir Jones o'r Bontnewydd, fel y prif enweirwr gyda dau eog ar 18 Awst o'r Finiog am tua 5 pwys yr un, aeth y ddau yn ôl i'r afon. Da iawn Gareth.

Be sydd wedi fy mhlesio yn arbenig eleni yw'r nifer o sgotwrs ifanc sydd o gwmpas y lle, mae gwirionedd yn y dywediad – 'rho inni bysgod a fe ddaw y sgotwrs'. Ac i roi rhyw dro bach ychwanegol ar hyn, ar 12ed. Gorffennaf cynhaliwyd diwrnod o bysgota rhwng ysgolion uwchradd y sir. Braf oedd gweld nifer yno o Ysgol Syr Huw Owen, Caernarfon, ond fel y llynedd siomedig oedd fod dim cynrychiolaeth o Ysgol Brynrefail. Diolch i Gareth Evans o Ysgol Syr Huw am drefnu.

Unwaith eto mae'r llynnodd yn 'sgota'n eithriadol gyda Dywarchen yn boblogaidd dros ben, mae safon y sgota yno yn ddi guro. Cefais bryhawn difyr dros ben yno gyda'm wyr Owain. Do fe orchfygodd ei daid gyda dau frithyll glas gyda'r mwyaf yn dri phwys. A do fe ddaeth yr hen badell allan o'r diwedd.

Gyda pethau or diwedd wedi rhoi tro am y goreu, mae'n hanfodol cadw a denu mwy o bysgotwyr ifanc, nhw yw'r dyfodol wedi'r cwbl. Mae ein gwaith ni wedi eu gyflawni, ar weledigaeth oedd ymdrechu i brynu'r hawilau a'u sichau am y dyfdol. Gwaith y tô ifanc yw cario'r breuddwyd ymlaen. Mae'r polisi yma o brynu a datblygu'r eiddo wedi cadw'r gymdeithas yn fyw dros flynyddoedd anodd iawn. Wyddoch chi be, does ond pedwar taliad rhent iw dalu erbyn heddiw, a un o'r rhain sy'n proff'n drafferthus i geisio trefnu cytundeb hir dymor. Mae gymdeithas wedi synnu a'i siomi sut mae Cyngor Gwynedd yn methu'n lân (neu gwrthod) i gytuno telerau a'r fater sy'n holl bwysig i'r fro'n gyffredinol. Ond efallai fod y corff yma hefyd yn dechrau troi yn ddi-gydymdeimlad at ran o'r fro sydd yn ei chynnal. Tybed a yw ei ffocws yn araf droi i roi mwy o bwysicrwydd at ymwelwyr o dros y ffin. Pam dwi'n cyfeirio at hyn, wel pan ddaeth yr tir lithriad yn Chwarel Vivian, fe gaewyd y clogwyni i ddringwyr, a tynnwyd fy sylw at enwau sy'n cael ei defnyddio ar glogwyni'r hen chwarel, enwau fel 'Comes of Dervish' Last Tango Slabs' 'Last Tango in Paris'. Enwau da yn de ar lecynnau ym mhlwyf Llanddeiniolen, a phwy yw perchenogion y chwarel tybed? Pam wnawn i orffen saenegeiddio'r hen le 'ma a galw Craig y Fulfran yn Cormorant Rock neu Tennau Penllyn yn Penllyn Shallows. Mae rhai hyd yn oed heddiw yn galw Pwll Fon yn White House Pool. Does eisiau gras yn does.

Wel dyna ddigon am tro, dwi'n addo dim ond bysgota mis negaf, a mi fyddai wedi rhoi tro arnai am y torgoch, os na fydd rhwbeth arall wedi tynnu fy sylw ydi hynny wrth gwrs.

Huw Price Hughes.



Un funud fach ...

LLE YDWI?

Mae misoedd os nad blwyddyn neu ddwy ers i mi weld Wales Today. Yr unig reswm am hynny ydi nad wyf yn arfer gwylio'r teledu'r amser o'r dydd y darlledir y rhaglen. Ond yn rhyfedd iawn, yr oeddwn yn gwneud hynny un nos Wener ganol Awst. Wedi gwylio News at Six roeddwn yn disgwyl y 'news from where you are'. Ond os cofiaf yn iawn yr unig beth a welid ar y sgrin am funud neu ddwy oedd logo'r BBC yn cylchdroi. Mi feddyliais fod rhywun wedi camamseru pethau: un ai bod y newyddion o Lundain wedi gorffen yn gynnar neu fod Wales Today yn hwyr. Wedi'r oedi, mi gafwyd rhaglen; ond o fewn eiliadau doeddwn i ddim yn siŵr lle oeddwn i.

Addawyd y newyddion 'from where you are', ond yr hyn a welwn ar y sgrin oedd Newsline, rhaglen newyddion Belfast a Gogledd Iwerddon. Mi wyddwn nad yno yr oeddwn ond gartra yn Llanberis, ac eto roedd yna rywbeth od iawn ynglŷn â'r peth. Bŵm yn Belfast flwyddyn yn ôl, a bron nad oeddwn yn credu fy mod yn ôl yno. Hanner ffordd trwy'r rhaglen, eglurodd y cyflwynydd mai oherwydd nam trydanol yng Nghanolfan y BBC yng Nghaerdydd yr oedd y gynulleidfa Gymreig yn gwylio Newsline y noson honno. Gan fod y rhaglen yn sôn am ddigwyddiadau union hanner canrif yn ôl pan anfonwyd milwyr y Fyddin Brydeinig i strydoedd Gogledd Iwerddon yr oedd yn ddifyr ac yn werth ei gweld. Fedrwn i ddim peidio â meddwl ei bod yn drueni mawr na fyddai'r nam trydanol yn Llundain yn hytrach na Llandaf. A hwythau'n chwarae â than wrth drafod yr Ynys Werdd yn gwbl ddi-hid ar hyn o bryd, byddai'n dda i'r Prif Weinidog newydd a'i gymheiriaid gael eu hatgoffa o ddyddiau cynnar y 'Troubles' a fu'n hunllef i bobl Gogledd Iwerddon am y deng mlynedd ar hugain a ddilynodd y mis Awst hwnnw yn 1969. Ond mae'n amlwg mai'r unig beth o bwys i Mr Johnson a'i griw yw 'where you are' ac nad oes ots ganddynt am unman na neb arall.

Mae Duw am i ni weithiau sefyll yn y man y mae pobl eraill yn sefyll a gweld pethau o'u safbwynt hwy yn hytrach nag o'n safbwynt ein hunain. Trwy wneud hynny, cawn olwg ar eu hanghenion a'u trafferthion a'u poenau hwy. Onid dyna a wnaeth Iesu Grist wrth ddod i'n byd, i ganol ein dioddefiadau? Mae'r Un a rannodd ein gwendidau, ac a wynebodd ein temtasiynau, ac a brofodd ein gofidiau, ac a ddioddefodd ein hangau ar Galfaria nid yn unig yn cydymdeimlo â ni ond yn medru dod â ni'n ddiogel trwy'r cyfan. Mae'r Iesu a safodd lle safwn ni yn estyn ei law i'n cynnal, ein cryfhau a'n gwaredu.

JOHN PRITCHARD

Pigion Byd Natur

**Aderyn hefo
Clamp o Big!**



Llun ohono ar dun polish a finna, bryd hynny, yn bwtyn-o-hogyn-ysgol, yn syllu am oriau ar aderyn hefo horwth o big, a hwnnw wedi mynnu mynd â'm bryd a'm holl sylw. Cof gennyf chwilota'n ddyfal amdano yng nghoedwigoedd Ben Bembo, y Gelli, Pen Tŵr, ac ar hyd yr aber, ond methais bob gafael â tharo arno! Ymhen blyneddodd wedyn y sylweddolais mai kiwi ydoedd yr aderyn, ac nad ydoedd o'n byw, fel y tybiwn i, yng Nghymru, ond yn Seland Newydd.

Mi gaf ddychwelyd at y tun polish yn y man.

Cynefin y kiwi: Fforestydd pinwydd, llethrau mynyddoedd sydd yn Seland Newydd, ac aderyn y nos ydyw.

Ei fwyd: Aeron, dail, hadau, ac hefyd bryfed genwair a ballu. Y kiwi gwinau sy'n bwyta ffwngi, llyffantod a llyswennod. Gofala hefyd lyncu graean bychain, ac y mae'r rhain o gymorth garw iddo yn y broses o dreulio'i fwyd.

Yfed dŵr: Cyn trafylencu ohono y diferion, cyfyd ei ben tuag at yn ôl. Hoff ganddo bryfed genwair i'w bwyta ac mae na reswm da dros hynny gan fod 85% o gorff y pryfed genwair yn ddim byd ond dŵr.

Cryfder yr aderyn: Ie! ei draed, a'r crafangau hynod finnog sydd ganddo. Gall ymladd yn ffyrnig ddigon hefo'r rhain.

Te manu huna a Tane: Yn iaith y Maori Seland Newydd ei ystyr ydyw aderyn cuddiedig Tane. Cred y brodorion bod popeth sy'n ddaearol fyw yn tarddu o'r Tad Awyr (Rangi-nui) a'r Fam Ddaear (Papatuanuku). Dau blentyn iddynt ydyw Tane-mahuta a Tangaro. Tane-mahuta a fu'n gyfrifol am greu fforestydd ac adar, a'r kiwi, welwch chi, ydyw plentyn hynaf Tane.

Polish esgidiau aderyn kiwi: Daeth i fri yn Awstralia yn y flwyddyn 1906. William Ramsay a'i datblygodd a dechrau ei werthu. Ond pam cynnwys ar gaeadau tuniau polish luniau adar na all hedfan! Ie! Ynte! Gwlad enedigol Annie Elizabeth Meek, gwraig William Ramsay, welwch chi, ydoedd Seland Newydd ac yno roedd y kiwi yn byw ac yn bodoli. Erbyn heddiw, gwerthir y tuniau polish esgidiau adar kiwi mewn nifer fawr o wledydd yn y byd.

Dafydd Guto Ifan

Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau

TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
PLASTRO • GOSOD CEGINAU *AMCANGYFRIF AM DDIM*

Sion Roberts ▶ **07759415753**
3 CARADOG PLACE • DEINIOLLEN • LL55 3H5

GERAINT OWEN
CARPEDI

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfa Mill, Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

CARPEDI
TEILS
VINYLS
DEWIS MAWR
O BATRYMAU

Gwasanaeth Gwres a Plymio

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

AVW **WORKSHOP** Arbenigwyr mewn ceir VW, Audi, Seat, Skoda & Porsche

Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975.

Which? Trusted trader **01286 673559**

Zone 2, Cibyn Ind Est, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk

BOSCH Service
Car Service
For everything your car needs.

TUDALEN YR IFANC

Clwb dawns newydd yn hudo

Mae dawnsio disgo, hip hop a stryd wedi cael rôl fawr ym mywydau rhai o bobl ifanc Dyffryn Peris ers degau o flynyddoedd bellach, gyda llwyddiannau mewn Eisteddfodau i'w hadrodd yn aml. Ond dim llawer sy'n parhau gyda'r diddordeb ar ôl iddynt adael ysgol. Mae'n braf felly gweld dwy ifanc o'r ardal, Chloe Roberts a lola Bryn Jones, yn cadw'r diddordeb yn fyw gyda Chlwb Dawns Hudoliaeth. Dyma'r Eco yn cael hanes y clwb gan Chloe:

"Cafodd Clwb Dawns Hudoliaeth ei sefydlu fel grwp yn unig ryw ddwy flynedd yn ôl rwan gyda 21 aelod. Mae nifer o'r dawnsiwr yn rhai sydd wedi dawnsio ers dros 16 mlynedd bellach a rhai sydd yn hollol newydd iddo, felly mae'n braf cael yr ystod eang o lefelau, galluoedd ac oedrannau gwahanol. Dros y ddwy flynedd diwethaf rydym fel grwp wedi bod yn ymarfer yn wythnosol yn creu dawnsiau i nifer o gerddoriaeth wahanol er mwyn paratoi at gystadlaethau'r Eisteddfod, ac yn amlwg yn ogystal â gwaith caled, mae lot fawr o chwerthin wedi bod yn rhan o'r ymarferion hyn!

Rydw i ac lola Bryn Jones fy nghyd-hyfforddwraig yn lwcus iawn ein bod yn ffrindiau da ers nifer o flynyddoedd bellach, felly rydym yn gweithio yn dda iawn efo'n gilydd. Fel hyfforddwyr, rydym yn gyfrifol o feddwl am themâu gwahanol i'r grwpiau, gwranddo ar lawer o gerddoriaeth a dewis darnau sy'n cyd-fynd gyda'r thema ac yn olaf meddwl yn greadigol am symudiadau i roi yn y ddawns. Yn ychwanegol i hyn, 'da ni wrth ein boddau yn meddwl am wisgoedd i'r grwpiau berfformio ynddynt a sut fath o edrychiad da' ni'n ei anelu i gael pob blwyddyn. Mae'r ddwy ohonom wedi dawnsio ers nifer o flynyddoedd bellach felly 'da ni rwan yn mwynhau hyfforddi plant a phobl ifanc a rhoi profiadau gwahanol iddynt.

Yn sicr, y perfformiad sy'n sefyll allan i ni fel grwp ydi perfformiad a wnaethom yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2018. Roeddem wedi dewis themâu 'lleianod' a doedd y lleianod yma ddim yn rhai arferol, roedd y rhain yn rhai drwg felly roedd yn lot o hwyl cael actio'r cymeriadau ac yn fwy na' dim, cael y profiad o ddawnsio ar lwyfan Canolfan Mileniwm yng Nghaerdydd a dod yn 1af yn y gystadleuaeth.

Dros y ddwy flynedd diwethaf mae'r grwp wedi bod yn gymysgedd o blant a phobl ifanc rhwng 12-25 oed. Mae'n hynod braf gweld y grwp yn gweithio fel fîm a dysgu pethau newydd gan y naill a'r llall. Fel hyfforddwyr, mae'n grêt gweld hyder yr unigolion yn codi yn ogystal â'r hwyl a'r chwerthin sydd i'w gael ym mwrlwm y gwaith caled!

Dwi a lola yn hynod gyffrous i gychwyn yn ôl mis Medi gan ein bod yn cychwyn fel Clwb Dawns swyddogol

ac yn cael 4 grwp dawns ychwanegol, sef: Grwp blwyddyn 1-3, Grwp blwyddyn 4-6, Grwp blwyddyn 7-9 a Grwp blwyddyn 10+. Y gobaith yw bydd mwy o blant a phobl ifanc yr ardal yn ymuno ac yn dod i ddawnsio gyda ffrindiau, dysgu rhywbeth newydd, codi hyder, cymdeithasu a chystadlu a chael amser i fod yn greadigol. Y gobaith i'r dyfodol yw ein bod yn rhoi mwy o gyfleoedd i blant a phobl ifanc fel clwb, ac yn fwy na' dim rhoi profiadau hwyliog i'r unigolion i'w sbarduno drwy eu bywydau!

Bydd yr ymarferion yn digwydd pob nôs Lun o'r 9fed o Fedi ymlaen yn Y Festri ym Mhenisarwaun. Er mwyn cael mwy o wybodaeth mae croeso i chi gysylltu gyda Chloe (07572414616) neu lola (07478 720143). Mae modd hefyd i ymuno a chysylltu gyda ni drwy ein tudalen Facebook - @Clwb Dawns Hudoliaeth."



Chwaraeon

Mynydd y Ddraig Goch



Yn Awst eleni roedd ein Clwb Karate sef y SEKI RYU ZAN ym Mangor, wedi dathlu ei sefydlu er 30 mlynedd. Camp a her i unrhyw glwb chwaraeon.

Clwb Karate traddodiadol ydi'r SEKI RYU ZAN wedi ei leoli yn y Gampfa ar Safle'r Normal ym Mangor, ac mae yno er ei ddechreuad yn Awst 1989.

Mae tri o'r aelodau gwreiddiol yn dal i ymarfer yn y clwb sef; Gwyn Mowll, Kevin Banholzer ac Alun Mowll.

Ystyr SEKI RYU ZAN ydi "MYNYDD Y DDRAIG GOCH".

Dros y blynyddoedd mae y SEKI RYU ZAN wedi cynhyrchu 148 o bobl leol gyda Beltiau Du ac ar y funud mae yna 38 o Feltiau Du yn ymarfer yn rheolaidd. Mae gennym aelodau o 7 oed i fyni i 70.

Clwb cymunedol di-elw ydi'r SEKI RYU ZAN. Credwn ein bod trwy roi ein gwasanaeth yn wirfoddol yn cyfoethogi bywydau ein pobol ifanc ac yn rhoi cyfle iddynt baratoi i fod yn oedolion cyfrifol a gofalgarn yn y dyfodol.

Mae nifer fawr o'n aelodau wedi bod yn eithriadol o lwyddiannus mewn cystadlaethau gwladol a rhyngwladol.

Mae'r SEKI RYU ZAN yn aelod o'r Corff Llywodraethu gydag adnabyddiaeth a mynediad i'r gemau Olympaidd.

Mae'r SEKI RYU ZAN yn dal yma ar ol yr holl flynyddoedd yn y gampfa ar Safle'r Normal Bangor (LL57 2PZ) ac yn croesawu aelodau newydd pob Noswaith Llun / Mercher ac Iau am 7pm.

AI HON OEDD YR ORAU?

Pnawn Sul Gwyl y Banc. Beth oedd y drefn acw ar bnawn Sul heulog? Allan am dro, barbeciw, neu setlo i lawr i weld y pêl-droed ar y teledu. Roedd ffrindiau wedi dod draw i gael cinio dydd Sul. Blasus iawn, ond roeddwn yn gorfod derbyn sawl cerydd am fy mod yn diflannu i weld beth oedd y datblygiadau draw yn Headingley ym mhrawf y Lludw. Wedi y gwarth o gael eu bowllo allan am 67 yn y batiad cyntaf, roedd Lloegr yn brwydro yn ôl ond roedd y targed derfynnol o 357 i weld yn ormod o dasg. Daeth y pryd i ben, felly pawb i'r stafell ffrynt am goffi. Pump ohonnom, tair menyw a dau ddyn. Dim ond fi ac unrhyw ddiddordeb na phrofiad o griced. Roedd Lloegr angen 90 i ennill a dwy wiced mewn llaw. "Diolch fyth, bydd hon drosodd yn fuan," meddai Mary sydd wedi dioddef sawl profiad o ddisgwyl i gêm clwb orffen. Wiced yn disgyn. Angen 87 ac un wiced mewn llaw. Distawodd yr stafell, rhoddwyd y papur dydd Sul i un ochr, anghofio'r croeseiriau... Pum pâr o lygaid wedi eu hoelio ar y sgrin. Y ddrama yn cynyddu. Sylwi ar gyflymdra'r bowllo..87,89mya..Dechreuwyd holi pwy oedd y Stokes yma? A Leach? Cyfle am ddaliad..lawr a'r bêl. Cyfle am redeg allan. methu cyfle arall. Roedd y tensiwn yn cynyddu. Stafell ddistaw, coffi yn oeri... Mae Stokes yn taro'r bowlwyr cyflym am 6,6,6,4.. ambell 2 ond y senglau pwysig yn golygu fod Stokes yn gallu gwynebu y mwyafrif llethol o'r pelawdau. Leach yn wynebu 17 pêl dyngedfenol ac yn llwyddo i wrthsefyll bygythiad y bowlwyr cyflym, a sgorio 1 rhediad tyngedfenol o bartneriaeth o 76 rhediad. 25 i ennill, 16 i ennill, 8 i ennill. 6 anferth oddiar bat Stokes i ganol y dorf. 2 i ennill ond mae'n rhaid i Leach wrthsefyll 2 belen â'r meyswyr o'i gwmpas fel gwenyn rownd pot jam. Mae'n llwyddo, Stokes i wynebu pelawd Cummins. Dim problem. Y belen gyntaf yn fyr tu

allan i'r wiced agored ac mae'r bêl dros y ffin am 4. Anhygoel. Batiad rhyfeddol Stokes wedi ail danio Cyfres y Lludw. Dwy gêm i fynd â'r ddau dim wedi ennill un gêm. Bydd cryn drafod am y gêm a'r batiad yma am hir. Y gorau fel gêm neu fatiad? Gwell na batiad Botham neu fowlio Willis ar yr un maes flynyddoedd yn ol? Gêm brawf dyngedfenol yn cael ei hennill gan fatiwr yn defnyddio technegau ac ergydion a fireinwyd yn y dull fer o'r gêm y T20 a'r 50 pelawd yr un. Y dulliau byr yma sydd wedi meithrin techneg berthnasol i rai fel Roy ond sy'n dangos ei wendidau ar lefel prawf. Dyma Stokes yn gwrthod ildio ac yn cyrraedd yr uchelfannau yn hanes gemau prawf. Bydd Old Trafford dan ei sang ar gyfer y prawf nesaf. Dyma ethos chwaraeon yn ei hanfod. Y cynhyrchioli, y blynyddoedd o fireinio techneg yn dod at ei gilydd, a'r unigolyn yn gwrthio ffiniau y gamp. Anhygoel, a gobeithio bydd yn tanio brwdfrydedd ymysg yr ifanc mewn camp yma'n lleol a chenedlaethol sy'n gwegian.

Yn anffodus, ni chefais yr un wefr draw ym Mae Colwyn yn gwyllo Morgannwg yn cael eu chwalu gan Sir Gaerhirfryn mewn 2.5 diwrnod. Daeth y torfeydd fel arfer – gan gynnwys criw Deiniolen - ond y gagendor rhwng y Saeson a Morgannwg yn ail yn anhygoel. Sylwch, Morgannwg ddywedais i nid y Cymry. Morgannwg â'i chymysgedd o dde Affrica, Awstralia, Season ac ambell i Gymro. Wedi'r golled mae'n anhebygol y bydd Morgannwg yn esgyn, ac nid ydynt wedi ennill unrhyw gêm yng nghystadleuaeth yr 20 pelawd. Croesffordd yn sicr i'r sir, a phwysau aruthrol ar Matthew Maynard y prif hyfforddwr. Fe gyfyd yr hen ddadl a ddylsai'r Sir ganolbwyntio ar ddatblygu tîm gynhenid Gymreig neu dal i dalu arian mawr am dramorwyr? Llwyddiant, methiant..ie, efeiliad pob camp.

Y TYMOR OLAF?

Fel mae'n hysbys bellach bu tipyn o ail-wampio yn strwythyr pêl-droed gynghreiriol yma yng Nghymru. Mae hefyd bwyslais ar wella safonau cyfleusterau, gan roddi y pwyslais ar y clybiau eu hunain i fod yn gyfrifol am y 'gwelliannau'. Yn amlwg mewn sawl clwb ni fydd y gallu ariannol ganddynt i ymateb. Yn yr un modd, ni ellir ymestyn maint rhai o'r meysydd fel sy'n ofynnol. Dau o'r clybiau hynny yw pileri'r gêm yn yr ardal sel Llanberis a Llanrug. Dau glwb a hanes cyfoethog dros sawl tymor ac ar wahanol adegau yn sicr wedi bod yn geffylau blaen fel prif dimau 'amatur' y Gogledd. Dau glwb sydd eisioes wedi gwario'n helaeth ar wella cyfleusterau ac yn cael eu rhedeg

gan bwyllgorau gweithgar, cydwybodol. Clybiau a chefnogwyr lleol teyrngar o hyd yn mynychu Ffordd Padarn ac Eithin Duon. Mae'n ymddangos felly mai beth bynnag fydd eu safle ar ddiwedd y tymor mai 'disgyn' fydd tynged y ddau glwb. Yn debygol felly i Gynghrair Gwynedd. Ond, nid Llanrug a Llanberis fydd yr unig glybiau yn y sefyllfa yma. A fydd rhaid ymestyn Cynghrair Gwynedd i ddwy adran a dileu Cynghrair Môn, er enghraifft? Ac onid eironig fuasai gweld rhai o'r 'hoelion wyth' yn disgyn a chlwb newydd Bangor yn cael ei ddrychafu o Gynghrair Gwynedd ar sail eu cyfleusterau modern draw yn Nhreborth. Ie, nid da pob newid.

Pencampwriaeth Rhanbarthol Hoci



Llongyfarchiadau i Elain Megan Owen (Llanberis), Catrin Beech a Beth W. Thomas (y ddwy o Lanrug) sy'n ddisgyblion yn Ysgol Brynrefail ac yn aelodau o Glwb Hoci Caernarfon. Dewiswyd y dair ohonynt i gynrychioli tim dan 14 oed Gogledd Cymru ym Mhencampwriaethau Rhanbarthol Prydain a gynhaliwyd yn Nottingham yn ystod yr haf.

BLE MAE'R CRYFDERAU?

Fe glywir sôn yn aml am y Ddeddf Rhyddhau Gwybodaeth yn enwedig ym myd gwleidyddiaeth ac ambell i sgandal newyddiadurol. Y pwrpas yw ceisio cael darlun cliriach ar rhyw agwedd o bwynt dan sylw. Dyna ddaeth i'm meddwl ynglyn a phêl-droed ieuencid ym Mro Eco erbyn hyn. Gwelais ar ambell i wefan gymdeithasol apêl am aelodau newydd dan wahanol oeddrannau. Yn amlwg nid oes digon o aelodau yn y pentrefi unigol i greu tîm, felly apêl am chwaraewyr o bentrefi eraill yn amlwg sydd yma. Mae hyn eisioes wedi gweld chwaraewyr o du allan i'r ardal yn cynrychioli timau lleol, neu dîm ysgol yn cynrychioli un pentref. Ond yn ôl at y timau. Cymerwn bentrefi Bethel, Deiniolen, Llanrug, Waunfawr a Llanberis fel y canolfannau pêl-droed ym Mro'r Eco. Yn amlwg nid oes digon o fechgyn/merched i gynnal yr ystod oedran o dan 6 i dan 16 ym mhob pentref. Os mai pwrpas datblygu chwaraewyr ar gyfer ein timau hyn yn y dyfodol yw'r nod – yna onid syniad fuasai creu canolfannau oedranol yn y gwahanol bentrefi; e.e dan9 Bethel, dan11 Llanberis ac yn y blaen. Yna buasai hyfforddwy profiadol yn gallu cynnal sesiynau. Rhannu doniau penodol adrannau i'r Fro yn hytrach na hyfforddi criw bach yn eu pentrefi unigol. Yn amlwg, buasai hyn yn galluogi'r hyfforddwy i raddio chwaraewyr yr ardal yn eu hadrannau oedran o ran gallu. Ar sail hyn buasai felly dimau -11 er enghraifft yn chwarae fel Bro'r Eco A,B ac yn y blaen. Awgrym yw hyn gen i, oes unrhyw ymateb. Fel dywedai hen arwyddair Cymdeithas Pêl-droed Cymru – Gorau Chwarae, Cyd- Chwarae.

RHEDEG MYNYDD

Tim Rory



Dyma'r merched a fu'n rhedeg Ras yr Wyddfa yn enw Tim Rory. Gweler yr hanes llawn dan newyddion Bethel.

Ras Elidir

Bydd y ras eleni yn cael ei chynnal ar ddydd Sadwrn, Medi 14eg am ddau o'r gloch y pawns. Bydd cofrestru ar agor o 12.30 ymlaen, a'r pris fydd £5. Disgwylir mwy o redwyr nac arfer eleni oherwydd fod y ras yn rhan o gyfres Pencampwriaeth Rhedeg Mynydd Gogledd Cymru.

(Does ond gobeithio na fydd cweit cymaint o redwyr a ddaeth i gystadlu ar yr Wyddfa yn gynharach yn yr haf!)

DAL I WELLA PERFFORMIAD

Ie, dyna yw hanes Cody O'Donnell o Fethel. Mae'n dal i grwydro o gwmpas Cymru yn amddiffyn ei safle fel pencampwr oedranol taflu'r pwysau (shot). Yng Nghaerdydd yn ddiweddar bu'n amddiffyn yn llwyddiannus ac ymestyn y pellter o 32cm gan gyrraedd hyd o 9.86m. Hefyd bydd Cody yn treulio'r gaeaf fel chwaraewr canol cae i dîm pêl-droed -14 Llanberis.



Gwesty Dolbadarn
Llanberis

Ffôn-(01286)-870277



grid76
graphic design

North Wales
SIGNS
Gogledd Cymru


Uned Unit | A9 | Cibyn Ind Estate | northwalessigns.com
grid76.co.uk | 07766956673

Chwaraeon

Hyfforddwraig y Flwyddyn

Llongyfarchiadau i Cenin Eifion o Benisarwaun ar dderbyn tlws "Hyfforddwr y Flwyddyn, Clwb Rygbi Caernarfon" am dymor 2018/2019.

Her Cychod Draig yn cynhyrfu'r dyfroedd er mwyn gofal Hosbis



Dychwelodd yr ŵyl Cychod Draig flynyddol i Lanberis ddiwedd y mis diwethaf, ar gyfer diwrnod arall o godi arian a hwyl i'r teulu. Yn cael ei chynnal ar lannau Llyn Padarn, gwelodd seithfed Her Cychod Draig Hosbis Dewi Sant dros 200 o rwyfwr mewn 13 o dimau'n mynd benben mewn Cychod Draig 40 troedfedd o hyd. Yn rhwyfo'u ffordd at fuddugoliaeth, roedd y timau wedi'u ffurfio o fusnesau lleol, ysgolion a grwpiau o ffrindiau a theulu. Trefnwyd y digwyddiad i godi arian at yr elusen leol, sydd ag angen codi dros £4 miliwn bob blwyddyn i ddarparu ei gwasanaethau.

Meddai Cydlynnydd Digwyddiadau'r Hosbis, Rhian Jacobs: "Dyna ddiwrnod anhygoel ac roeddem mor lwcus gyda'r tywydd.

Mae arnaf eisiau diolch i bawb a ddaeth draw i'r diwrnod ac

i'r holl wirfoddolwyr. Llongyfarchiadau mawr i'n henillwyr newydd a ddaeth yn gyntaf, Yr RLDragons o RLD Construction. "Diolch yn arbennig iawn i Colin Wickens o Dragon Investment am noddi'r digwyddiad. Bydd yr arian a'r ymwybyddiaeth a godwyd yn gefnogaeth enfawr i'r cleifion a'u teuluoedd yma yn Hosbis Dewi Sant."

Mae Hosbis Dewi Sant, a unodd gyda Hosbis yn y Cartref, Gwynedd ac Ynys Môn y llynedd, yn gofalu am ac yn cefnogi pobl leol, yn rhad ac am ddim, yn eu Canolfannau Therapi ym Mangor a Llandudno, yn yr Uned Cleifion Mewnol yn Llandudno, yn ogystal ag yng nghysur cartrefi y cleifion drwy'r gwasanaeth Hosbis yn y Cartref a'r gwasanaeth Allgymorth.

I gael mwy o wybodaeth ewch i: www.stdavidshospice.org.uk